

Atebion i Gwestiynau Ysgrifenedig

Answers to Written Questions

Cynnwys

Contents

- | | |
|----|--|
| 2 | Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd
<i>Questions to the First Secretary</i> |
| 13 | Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol
<i>Questions to the Secretary for the Environment and Local Government</i> |
| 28 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
<i>Questions to the Secretary for Health and Social Services</i> |
| 61 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd
<i>Questions to the Secretary for Economic Development</i> |
| 68 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig
<i>Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development</i> |
| 74 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16
<i>Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training</i> |
| 82 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg Cyn-16
<i>Questions to the Secretary for Under-16 Education</i> |
| 91 | Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Cyllid
<i>Questions to the Finance Secretary</i> |

Cwestiynau i'r Prif Ysgrifennydd Questions to the First Secretary

Corruption in Local Government

Nick Bourne: Is the First Secretary proposing to bring forward measures to combat corruption in local government? (WAQ695JS)

The First Secretary: The Government has recently consulted on the draft Local Government Organisation and Standards Bill, which will introduce a new ethical framework for local government. The Government intends to introduce the necessary legislation at the earliest opportunity. An Ethical Framework Working Group has been convened to advise on how the new ethical framework should be implemented in Wales. It comprises representatives from local government, the Commission for Local Administration in Wales, District Audit Office (Wales), the police and trades unions. It will report to the Assembly in the autumn.

Llygredd mewn Llywodraeth Leol

Nick Bourne: A yw'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu symud ymlaen â mesurau i ddatrys llygredd mewn llywodraeth leol? (WAQ695JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Ymgynghorodd y Llywodraeth yn ddiweddar ynghylch drafft o Fesur Trefniadaeth a Safonau Llywodraeth Leol. Bydd y mesur yn cyflwyno fframwaith moesegol newydd ar gyfer llywodraeth leol. Mae'n fwriad gan y Llywodraeth i gyflwyno'r ddeddfwriaeth angenrheidiol cyn gynted â phosibl. Trefnwyd Gweithgor Fframwaith Moesegol i gynghori ar sut y dylid gweithredu'r fframwaith moesegol newydd yng Nghymru. Mae'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o lywodraeth leol, y Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, Swyddfa Archwilio Cyfrifon y Dosbarth (Cymru), yr heddlu a'r undebau llafur. Bydd y grŵp yn adrodd i'r Cynulliad yn yr hydref.

Minimum Wage

Nick Bourne: What effect will the minimum wage have upon the costs of local authorities, social services and health services in Wales over each of the next four years? (WAQ698JS)

The First Secretary: Local government's views on funding pressures in 2000-2001 and beyond, including those associated with pay and prices, are identified in the expenditure subgroup's 1999 report which is being finalised. A copy of the latest draft of the report is in the Library. The draft includes an assessment of the impact on costs in social services. These views will be taken into account before decisions on the local government settlement are made.

No change in NHS costs in Wales is expected as a result of the introduction of the national minimum wage.

Isafswm Cyflog

Nick Bourne: Pa effaith fydd yr isafswm cyflog yn ei gael ar gostau awdurdodau lleol, gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau iechyd yng Nghymru ym mhob un o'r pedair blynedd nesaf? (WAQ698VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Gellir gweld syniadau llywodraeth leol am bwysau cyllido yn y flwyddyn 2001-2001 a thu hwnt, gan gynnwys y rheini a gysylltir â chyflog a phrisiau, yn adroddiad 1999 yr is-grŵp gwariant sydd yn cael ei gwblhau. Mae copi o'r drafft diweddaraf

o'r adroddiad ar gael yn y Llyfrgell. Mae'n cynnwys asesiad o'r effaith ar gostau o fewn y gwasanaethau cymdeithasol. Caiff y syniadau hyn eu hystyried cyn y gwneir penderfyniadau ar setliad ariannol llywodraeth leol.

Ni ddisgwylir unrhyw newid yng nghostau'r gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru o ganlyniad i gyflwyno'r isafswm cyflog cenedlaethol.

Lottery Funding

Jenny Randerson: What progress has been made in obtaining an increased percentage of the total lottery funding for the UK for the Sports Council for Wales and the Arts Council of Wales and when does the First Secretary expect an announcement to be made? (WAQ706JS)

The First Secretary: I am pleased that the Department for Culture, Media and Sport recently agreed to my suggestion that the percentage of lottery funding should be reviewed. The review will involve the Department for Culture, Media and Sport, the Northern Ireland and Scottish executives as well as the Assembly, and will begin shortly. The time-scale of the review and the timing of the announcement of its conclusions will depend on the nature and content of the discussions.

Cyllid Loteri

Jenny Randerson: Pa gynnydd sydd wedi'i wneud wrth ddenu canran uwch o gyfanswm cyllid y loteri ar gyfer y DU i Gyngor Chwaraeon Cymru a Chyngor Celfyddydau Cymru, a phryd mae'r Prif Ysgrifennydd yn disgwyl y gwneir cyhoeddiad? (WAQ706JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf yn falch i'r Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon gytuno'n ddiweddar â'm hargymhelliad y dylid adolygu'r canran o gyllid y loteri. Bydd yr adolygiad yn dechrau cyn hir ac yn cynnwys yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, adrannau gweithredol Gogledd Iwerddon a'r Alban ynghyd â'r Cynulliad. Bydd ystod amser yr adolygiad ac amseriad cyhoeddi'r canlyniadau yn dibynnu ar natur a chynnwys y trafodaethau.

The Welsh Context Company

William Graham: What contacts has the First Secretary had with the PR company Welsh Context? (WAQ667VB)

The First Secretary: Neither I nor members of my Cabinet have had any formal dealings with this company since our election to the Assembly.

Cwmni Welsh Context

William Graham: Pa gysylltiadau y mae'r Prif Ysgrifennydd wedi'u cael â'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus Welsh Context? (WAQ667VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid wyf fi, nac aelodau o'm Cabinet wedi cael unrhyw gyswllt swyddogol â cwmni hwn ers ein hethol i'r Cynulliad.

Planning Appeals

Peter Black: What percentage of planning appeals were upheld by the Welsh Office in each of 1996-97, 1997-98 and 1998-99? (WAQ662)

The First Secretary: The percentage of planning appeals upheld by the Welsh Office in each of the past three years were as follows:

Year	Secretary of State Cases		Inspector Cases	
	Decided	Allowed (%)	Decided	Allowed (%)
1996-97	16	6 (38)	557	195 (35)
1997-98	4	2 (50)	557	203 (35)
1998-99	7	4 (57)	653	223 (34)

Apeliadau Cynllunio

Peter Black: Pa ganran o apeliadau cynllunio a gefnogwyd gan y Swyddfa Gymreig yn 1996-97, 1997-98 ac yn 1998-99? (WAQ662)

Y Prif Ysgrifennydd: Dyma ganran yr apeliadau cynllunio a gefnogwyd gan y Swyddfa Gymreig ym mhob un o'r tair blynedd diwethaf:

Blwyddyn	Achosion yr Ysgrifennydd Gwladol		Achosion Arolygwyr	
	Penderfynwyd	Caniatawyd (%)	Penderfynwyd	Caniatawyd (%)
1996-97	16	6 (38)	557	195 (35)
1997-98	4	2 (50)	557	203 (35)
1998-99	7	4 (57)	653	223 (34)

Wind Farm Developments

Nick Bourne: Further to my question OAQ360VB (RoP 13.07.99, p.57), will the First Secretary support a policy to restrict future wind farm developments in Wales? (WAQ659VB)

The First Secretary: It is inevitable that decisions on matters of this sort involve balancing conflicting priorities. This Government aims to ensure that society's energy needs are satisfied, while protecting the local and global environment and minimising any environmental damage or loss of amenity caused by the supply of energy.

In Wales the policy set out in the recently published revision of 'Planning Guidance (Wales) Planning Policy', and in 'Technical Advice Note (Wales) Renewable Energy', is to stimulate sources of renewable energy wherever they have the prospect of being economically attractive and environmentally acceptable. Local planning authorities are advised to address such issues in preparing development plans and in determining planning applications.

Datblygiadau Ffermydd Gwynt

Nick Bourne: Yn dilyn fy nghwestiwn OAQ360VB (Y Cofnod 13.07.99, t.57), a wnaiff y Prif Ysgrifennydd gefnogi polisi i gyfyngu ar ddatblygiad ffermydd gwynt yng Nghymru yn y dyfodol? (WAQ659VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n anochel fod penderfyniadau ar faterion o'r fath yn golygu cydbwys o blaenoriaethau sy'n gwrthdaro. Nod y Llywodraeth hon yw sicrhau bod anghenion ynni cymdeithas yn cael eu diwallu, ac ar yr un pryd amddiffyn yr amgylchedd lleol a byd-

eang a sicrhau cyn lleied â phosibl o niwed i'r amgylchedd a cholli mwynderau oherwydd cyflenwi ynni.

Yng Nghymru y polisi a bennwyd yn y fersiwn ddiwygiedig o'r 'Canllawiau Cynllunio (Cymru) Polisi Cynllunio' a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ac yn y 'Nodyn Cyngor Technegol (Cymru) Ynni Adnewyddadwy', yw hyrwyddo ffynonellau ynni adnewyddadwy lle bo posibilrwydd y byddant o fudd yn economaidd ac yn dderbyniol o ran yr amgylchedd. Cyngorwyd awdurdodau cynllunio lleol i ymdrin â materion fel hyn wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio.

Delegation of Powers (Health Act 1999)

David Melding: When does the First Secretary intend to delegate the powers given to him by the Health Act 1999 to the Assembly Secretary for Health and Social Services, and how will the Assembly be notified of this delegation? (WAQ570JS)

The First Secretary: The Health Act 1999 confers functions on the Assembly, not on me, although the Assembly agreed in Plenary on 7 July to delegate them to me. I have subsequently delegated them to Jane Hutt.

Dirprwyo Pwerau (Deddf Iechyd 1999)

David Melding: Pryd y mae'r Prif Ysgrifennydd yn bwriadu dirprwyo'r pwerau a roddwyd iddo dan Ddeddf Iechyd 1999 i'r Ysgrifennydd Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a sut yr hysbysir y Cynulliad ynglŷn â hynny? (WAQ570JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae Deddf Iechyd 1999 yn cyflwyno swyddogaethau i'r Cynulliad, nid i mi, er bod y Cynulliad wedi cytuno i'w dirprwyo i mi yn y Sesiwn Llawn ar 7 Gorffennaf. Yn dilyn hynny yr wyf wedi eu dirprwyo i Jane Hutt.

Performance Targets (Public Service Agreement)

Jonathan Morgan: Is the Cabinet committed to achieving the performance targets set out for the Welsh Office in the Treasury's paper 'Public Service Agreement' issued in November 1998? (WAQ683JS)

The First Secretary: The Assembly is now consulting on its values, service priorities and spending plans through the 'Better Wales' paper as an initial step towards developing its first strategic plan. This includes the need to set targets against which performance can be measured over the lifetime of the current Assembly. The Treasury paper 'Public Service Agreement' was illustrative for devolved bodies and indicated that it would be for the Assembly to consider the issues contained in the paper. The reason for this is that public service agreements are not binding on the devolved bodies, including the National Assembly for Wales.

Targedau Perfformiad (Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus)

Jonathan Morgan: A yw'r Cabinet yn ymrwymedig i gyflawni'r targedau perfformiad a nodwyd ar gyfer y Swyddfa Gymreig ym mhapur y Trysorlys 'Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus' a gyhoeddwyd fis Tachwedd 1998? (WAQ683JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Ar hyn o bryd mae y Cynulliad yn ymgynghori ynglŷn â'i werthoedd, ei flaenoriaethau gwasanaethau a'i gynlluniau gwario trwy gyfrwng y papur 'Gwell Cymru' fel cam cyntaf wrth ddatblygu ei gynllun strategol cyntaf. Mae hyn yn cynnwys yr angen i osod

targedau y gellir mesur perfformiad yn eu herbyn gydol oes y Cynulliad presennol. Yr oedd papur ‘Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus’ y Trysorlys yn enghreifftiol ar gyfer cyrff datganoledig ac yn nodi mai'r Cynulliad a ddylai ystyried y materion a gynhwyswyd yn y papur. Y rheswm dros hyn yw nad yw cytundebau gwasanaeth cyhoeddus yn ymrwymol ar y cyrff datganoledig, gan gynnwys Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Public Service Agreement (National Assembly)

Jonathan Morgan: When will the National Assembly for Wales be issuing its own public service agreement following the Treasury White Paper of the same name published in November 1998? (WAQ707JS)

The First Secretary: Public service agreements are not binding on the National Assembly for Wales. The Treasury publication ‘Public Service Agreement’ included an illustrative agreement for the Welsh Office but indicated that it would be for the Assembly to consider these issues. The Assembly, through the ‘Better Wales’ document, is now consulting on its values, service priorities and spending plans as an initial step to developing its first strategic plan. The published plan will set out the Assembly’s aims, objectives, targets and spending plans for the following three years so that the public will be able to see what the Assembly will deliver with its resources.

Cytundeb Gwasanaethau Cyhoeddus (Cynulliad Cenedlaethol)

Jonathan Morgan: Pryd y bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cyhoeddi ei gytundeb gwasanaethau cyhoeddus ei hun yn dilyn Papur Gwyn o'r un enw gan y Trysorlys ym 1998? (WAQ707JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid yw cytundebau gwasanaethau cyhoeddus yn ymrwymol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Roedd cyhoeddiad ‘Cytundebau Gwasanaethau Cyhoeddus’ y Trysorlys yn cynnwys cytundeb enghreifftiol ar gyfer y Swyddfa Gymreig ond yn nodi mai'r Cynulliad a ddylai ystyried y materion hyn. Mae'r Cynulliad ar hyn o bryd, trwy gyfrwng y ddogfen ‘Gwell Cymru’, yn ymgynghori ynglŷn â'i werthoedd, ei flaenoriaethau gwasanaeth a'i gynlluniau gwario fel cam cyntaf wrth ddatblygu ei gynllun strategol cyntaf. Bydd y cynllun a gyhoeddir yn amlinellu nodau, amcanion, targedau a chynlluniau gwario'r Cynulliad ar gyfer y tair blynedd ddilysol, fel bod y cyhoedd yn gallu gweld beth y bydd y Cynulliad yn ei gyflawni gyda'i adnoddau.

Disabled Access (New Assembly Building)

Peter Black: What provision is to be made for access to the new Assembly building by people with disabilities? What consultations have taken place with groups acting on behalf of people with disabilities on this provision and have guidelines on moving distances for people with various disabilities been taken into account in designing such provision? (WAQ709JS)

First Secretary: I have made it absolutely clear that high-quality access for disabled people is crucial to the design and this has been reinforced by the Assembly during last week's debate. The iterative process of scheme design is still underway, and it includes a process of continuous examination and evaluation of the scope, extent and degree of provision of facilities and access arrangements for people with disabilities.

The architect has recently presented the design to Disability Wales, and Assembly Members have also had an opportunity to comment on the proposals. As a result, the Richard Rogers Partnership are currently reviewing their proposals to ensure that they take account of the feedback received following these presentations.

The intention is that the architect engages fully in consultation with Disability Wales throughout the design process, and that the project team will have the benefit of independent professional advice, which should ensure that they adhere to recognised regulations and standards. The aim is to achieve an exemplar building in terms of accessibility.

Mynediad i'r Anabl (Adeilad Newydd y Cynulliad)

Peter Black: Pa ddarpariaeth fydd yn cael ei gwneud ar gyfer sicrhau mynediad i bobl ag anableddau i adeilad newydd y Cynulliad? Pa ymgynghori sydd wedi bod â grwpiau sy'n gweithredu ar ran pobl ag anableddau ynghylch y ddarpariaeth hon, ac a yw'r canllawiau ynghylch pellteroedd symud ar gyfer pobl ag amrywiol anableddau wedi'u hystyried wrth ddylunio darpariaeth o'r fath? (WAQ709JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Yr wyf wedi mynegi'n glir bod mynediad hwylus i bobl ag anableddau yn hanfodol i'r dyluniad ac mae hyn wedi cael ei atgyfnerthu gan y Cynulliad yn ystod y drafodaeth yr wythnos ddiwethaf. Mae proses iteraidd dylunio'r cynllun ar y gweill o hyd, ac mae'n cynnwys proses o archwilio parhaol a gwerthuso cwmpas, maint a graddfa'r ddarpariaeth o ran cyfleusterau a threfniadau mynediad i bobl ag anableddau.

Mae'r pensaer wedi cyflwyno'r dyluniad i Anabledd Cymru yn ddiweddar, ac mae Aelodau'r Cynulliad hefyd wedi cael cyfreithiadau ar y cynigion. O ganlyniad, mae Partneriaeth Richard Rogers ar hyn o bryd yn adolygu eu cynigion er mwyn sicrhau eu bod yn cymryd i ystyriaeth yr adborth a gafwyd yn sgîl y cyflwyniadau.

Y bwriad yw y bydd y pensaer yn ymgynghori'n llawn ag Anabledd Cymru trwy gydol y broses ddylunio, ac y bydd y tîm prosiect yn elwa ar gael cyngor annibynnol proffesiynol, a ddylai sicrhau eu bod yn glynw wrth y rheoliadau a'r safonau cydnabyddedig. Y nod yw llwyddo i gael adeilad canmoladwy o ran mynediad.

User Guide to the Assembly

Sue Essex: Would the First Secretary consider the preparation of a user guide to the Assembly for individuals and organisations in Wales to explain how the Assembly operates? (WAQ645JS)

The First Secretary: The Assembly information booklet, which is freely available to individuals and organisations in Wales contains basic information on how the Assembly operates. This information is also available on the Assembly website. The website also provides more detailed information on Assembly business including Plenary and Committee agendas, and papers. That information is updated daily. The website is in the process of being redesigned and it is envisaged that the new site will improve access and provide the user with a more robust search facility.

The Public Information branch is in the process of developing a suite of materials on the Assembly's work. That will include a series of fact-sheets on specific areas of operation, such as the role of the Presiding Officer, the Assembly Secretaries, the Assembly Committee structure, and a guide to the various types of Assembly business. This material will be available in the autumn.

Llawlyfr ar y Cynulliad

Sue Essex: A fyddai'r Prif Ysgrifennydd yn barod i ystyried paratoi llawlyfr i unigolion a mudiadau yng Nghymru i esbonio sut mae'r Cynulliad yn gweithio? (WAQ645JS)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae llawlyfr gwybodaeth y Cynulliad, sydd ar gael i unigolion a mudiadau yng Nghymru, yn cynnwys gwybodaeth sylfaenol ar sut mae'r Cynulliad yn gweithredu. Mae'r wybodaeth hon hefyd ar gael ar wefan y Cynulliad. Mae'r wefan hefyd yn darparu gwybodaeth fwy manwl ar fusnes y Cynulliad, gan gynnwys agendâu'r Sesiynau Llawn a'r Pwyllgorau a phapurau. Caiff yr wybodaeth honno ei diweddar u'n ddyddiol. Mae'r wefan yn cael ei hail-gynllunio ar hyn o bryd a rhagwelir y bydd y safle newydd yn gwella mynediad ac yn darparu gwell cyfleusterau chwilio i'r defnyddiwr.

Mae'r gangen Gwybodaeth Gyhoeddus wrthi'n datblygu deunyddiau ar waith y Cynulliad. Bydd hyn yn cynnwys cyfres o daflenni ffeithiau ar feisydd penodol o weithredu, megis rôl y Llywydd, Ysgrifenyddion y Cynulliad, strwythur Pwyllgor y Cynulliad, a chanllawiau ar fusnes amrywiol y Cynulliad. Bydd y deunydd hwn ar gael yn yr hydref.

Asset Sales

David Melding: What plans does the First Secretary have for the National Assembly for Wales to contribute to the UK Government's target for £1 billion worth of asset sales a year, for the next three years? (WAQ649VB)

The First Secretary: One of our priorities is to deliver value for money for the people of Wales, with better and more efficient services. That includes making the maximum use of assets and ensuring that those that are surplus to requirements are disposed of as quickly as possible. We are looking at ways in which the Assembly can best achieve this.

Gwerthu Asedau

David Melding: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gyfrannu tuag at darged Llywodraeth y DU o werthu asedau gwerth £1 biliwn y flwyddyn dros y tair blynedd nesaf? (WAQ649VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Un o'n blaenoriaethau yw rhoi gwerth am arian i bobl Cymru, gyda gwasanaethau gwell a mwy effeithlon. Mae hynny'n cynnwys gwneud y defnydd mwyaf posibl o asedau a sicrhau ein bod yn cael gwared â'r rhai sy'n ychwanegol i ofynion cyn gynted â phosibl. Yr ydym yn ystyried y ffordd orau i'r Cynulliad gyflawni hyn.

Rugby World Cup

Nick Bourne: In view of the importance of the rugby world cup to the economy and image of Wales, what representations is the First Secretary making with regard to broadcasting coverage of matches? (WAQ728VB)

The First Secretary: None. Broadcast coverage of matches is a matter for negotiation between the broadcasters and the organisers and for regulation by the rugby and broadcasting authorities.

Cwpan Rygbi'r Byd

Nick Bourne: O ystyried pwysigrwydd cwpan rygbi'r byd i economi a delwedd Cymru, pa gynrychioliadau y mae'r Prif Ysgrifennydd yn eu gwneud mewn perthynas â darlledu gemau? (WAQ728VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Dim. Mae darlledu gemau yn fater i'r darlledwyr a'r trefnwyr ei drafod ac i'r awdurdodau rygbi a darlledu ei reoli.

Millennium Celebrations

Nick Bourne: What plans exist for Wales to celebrate the dawn of a new millennium on a national basis? (WAQ729VB)

The First Secretary: The millennium celebrations in Wales will be community based and will take place throughout Wales next year. The New Millennium Experience Company estimates that there will be nearly one thousand celebratory events and projects in Wales and that well over one million people will be involved. There will also be a millennium church service in Cardiff on Sunday 2 January 2000 with a congregation drawn from across Wales.

Dathlu'r Mileniwm

Nick Bourne: Pa gynlluniau sy'n bodoli i Gymru ddathlu gwawr y mileniwm newydd ar sail cenedlaethol? (WAQ729VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Bydd dathliadau'r mileniwm yng Nghymru wedi'u seilio yn y gymuned a byddant yn digwydd ledled Cymru y flwyddyn nesaf. Mae Cwmni Profiad y Mileniwm Newydd yn amcangyfrif y bydd bron mil o ddigwyddiadau a phrosiectau dathlu yng Nhymru ac y bydd ymhell dros filiwn o bobl yn cymryd rhan. Ceir hefyd wasanaeth eglwys i ddathlu'r mileniwm yng Nghaerdydd ddydd Sul 2 Ionawr 2000 â chynulleidfa o bob rhan o Gymru.

Site 1E (Lease)

Rod Richards: What are the terms and conditions of the lease on site 1E? (WAQ773VB)

The First Secretary: The Assembly has a 150-year lease on site 1E with effect from 29 September 1998. This was secured by my predecessor at a peppercorn rate. The sum of £1 was paid as a premium.

Safle 1E (Prydles)

Rod Richards: Beth yw telerau ac amodau'r brydles ar safle 1E? (WAQ773VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae gan y Cynulliad brydles 150 mlynedd ar safle 1E a ddaeth i rym ar 29 Medi 1998. Sicrhawyd y brydles gan fy rhagflaenydd am rent hedyn pupur. Talwyd y swm o £1 fel premiwm.

New National Assembly Building (Inquiry)

Rod Richards: Will the First Secretary commission an independent inquiry into the decision to build a new National Assembly building? (WAQ774VB)

The First Secretary: I have no reason to commission an independent inquiry.

Adeilad Newydd y Cynulliad Cenedlaethol (Ymchwiliad)

Rod Richards: A wnaiff y Prif Ysgrifennydd gomisiynu ymchwiliad annibynnol i'r penderfyniad i godi adeilad newydd ar gyfer y Cynulliad Cenedlaethol? (WAQ774VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Nid oes gennyl unrhyw reswm i gomisiynu ymchwiliad annibynnol.

Crickhowell House (Lease)

Rod Richards: What are the terms and conditions of the lease on Crickhowell House? (WAQ775VB)

The First Secretary: There are two leases on Crickhowell House. One covers block A and the other covers blocks B and C. The leases are for a 30-year period with effect from 31 August 1993. Originally the leases were for a 25-year period and the building was occupied by the Welsh Health Common Services Authority. The leases were re-negotiated as part of the overall Assembly development in Cardiff Bay. This delays the next review by five years. The Assembly has an option to renew for a further period of 30 years.

Tŷ Crucywel (Prydles)

Rod Richards: Beth yw telerau ac amodau'r brydles ar Dŷ Crucywel? (WAQ775VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae yna ddwy brydles ar Dŷ Crucywel. Mae un yn ymwneud â bloc A a'r llall yn ymwneud â blociau B ac C. Mae'r prydlesau am gyfnod o 30 mlynedd a daethant i rym ar 31 Awst 1993. Yn wreiddiol roedd y prydlesau am gyfnod o 25 mlynedd ac Awdurdod Gwasanaethau Cyffredin Iechyd Cymru a oedd yn defnyddio'r adeilad. Aildrafodwyd y prydlesau fel rhan o holl gynllun datblygu'r Cynulliad ym Mae Caerdydd. Mae hynny'n gohirio'r adolygiad nesaf am bum mlynedd arall. Mae gan y Cynulliad opsiwn i adnewyddu'r prydlesau am gyfnod pellach o 30 mlynedd.

Crickhowell House (Lease)

Rod Richards: What plans does the First Secretary have for the period after the lease of Crickhowell House expires? (WAQ776VB)

The First Secretary: It is difficult to predict the future accommodation requirements of the Assembly so far in advance. The present leases and option for a further extension to the leases of up to 30 years provide for the continued use of either the whole or part of the building, if required, up to the year 2053.

Tŷ Crucywel (Prydles)

Rod Richards: Pa gynlluniau sydd gan y Prif Ysgrifennydd ar gyfer y cyfnod ar ôl i'r brydles ar Dŷ Crucywel ddod i ben? (WAQ776VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Mae'n anodd rhagweld gofynion y Cynulliad o ran adeiladau mor bell i'r dyfodol. Mae'r prydlesau a'r opsiwn presennol i ymestyn y prydlesau am hyd at 30 mlynedd ychwanegol yn golygu y gellir parhau i ddefnyddio'r adeilad, un ai'n gyfan gwbl neu'n rhannol, os bydd angen hynny, hyd at y flwyddyn 2053.

Crickhowell House (Lease)

Rod Richards: Why did the Government extend the lease on Crickhowell House? (WAQ777VB)

The First Secretary: The five-year extension of the leases formed part of the agreement with Grosvenor Waterside as part of the overall negotiations for the Assembly location before I became Secretary of State.

Tŷ Crucywel (Prydles)

Rod Richards: Pam yr ymestynnodd y Llywodraeth y brydles ar Dŷ Crucywel? (WAQ777VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Roedd yr estyniad pum mlynedd ar y prydlesau yn rhan o'r cytundeb gyda Grosvenor Waterside, fel rhan o'r holl drafodaethau ynglŷn â lleoliad y Cynulliad cyn i mi ddod yn Ysgrifennydd Gwladol.

Crickhowell House (Lease)

Rod Richards: What is the net present value of the lease on Crickhowell House? (WAQ778VB)

The First Secretary: On the basis that the rental currently being paid is a market rental, the net present value of the lease is nil.

Tŷ Crucywel (Prydles)

Rod Richards: Beth yw gwerth net presennol y brydles ar Dŷ Crucywel? (WAQ778VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Ar y sail bod y rhent a delir ar hyn o bryd yn rhent sy'n cyfateb i bris y farchnad, nid oes gwerth net o gwbl i'r brydles ar hyn o bryd.

Crickhowell House (Lease)

Rod Richards: When did the Government extend the lease on Crickhowell House? (WAQ779VB)

The First Secretary: Contracts were exchanged on 18 September 1998 and completion was achieved on 1 October 1998.

Tŷ Crucywel (Prydles)

Rod Richards: Pa bryd yr ymestynnodd y Llywodraeth y brydles ar Dŷ Crucywel? (WAQ779VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Cyfnewidiwyd contractau ar 18 Medi 1998 a chwblhawyd y broses ar 1 Hydref 1998.

Trade Briefing

Alun Cairns: What role does the Secretary for Economic Development have in briefing Peter Hain MP on trade? (WAQ784VB)

The First Secretary: While the Department of Trade and Industry is responsible for many trade matters, the National Assembly for Wales is responsible for representing the interests of Wales to the DTI and ensuring that those interests are considered. We will also ensure that the

Secretary of State for Wales and any junior Ministers supporting him are briefed on relevant issues.

Briffio ar Fasnach

Alun Cairns: Pa swyddogaeth sydd gan yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd o ran briffio Peter Hain AS ar fasnach? (WAQ784VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Er mai'r Adran Fasnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am lawer o faterion masnach, Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am gynrychioli buddiannau Cymru gerbron yr Adran Fasnach a Diwydiant a sicrhau bod y buddiannau hynny yn cael eu hystyried. Byddwn hefyd yn sicrhau bod Ysgrifennydd Gwladol Cymru ac unrhyw Weinidogion iau sy'n ei gynorthwyo yn cael eu briffio ar faterion perthnasol.

Trade Missions

Alun Cairns: What Government representatives will be used to promote Wales in trade missions abroad over the coming 12 months? (WAQ785VB)

The First Secretary: Decisions on who will lead Welsh overseas trade missions have not yet been taken. The Assembly Secretary for Economic Development will make a statement on this matter in due course.

Teithiau Masnach

Alun Cairns: Pa gynrychiolwyr y bydd y Llywodraeth yn eu defnyddio i hyrwyddo Cymru ar deithiau masnach dros y môr yn ystod y 12 mis nesaf? (WAQ785VB)

Y Prif Ysgrifennydd: Ni phenderfynwyd eto pwysydd yn arwain teithiau masnach dros y môr i hyrwyddo Cymru. Bydd Ysgrifennydd y Cynulliad dros Ddatblygu Economaidd yn gwneud datganiad ar y mater hwn maes o law.

Building Costs via PFI

David Melding: Has the First Secretary explored the possibility of financing all or part of the capital cost of building or refurbishing the new Assembly Building and the Pierhead building via the private finance initiative? (WAQ791VB)

The First Secretary: I am informed that the private finance initiative route was rejected early on in the deliberations on a home for the Assembly. To re-examine the use of private funding for the new building at this stage in the project would be counter-productive, leading to both nugatory expenditure and delay. Work on the Pierhead building has been completed.

Costau Adeiladu trwy'r Fenter Cyllid Preifat

David Melding: A yw'r Prif Ysgrifennydd wedi edrych ar y posibilrwydd o ariannu cost cyfalaf adeilad neu adnewyddu Adeilad newydd y Cynulliad ac adeilad Pierhead yn rhannol neu'n gyfan gwbl trwy'r fenter cyllid preifat? (WAQ791VB)

Fe'm hysbysir fod mynd ar drywydd y fenter cyllid preifat wedi ei wrthod yn gynnar yn y trafodaethau ynglŷn â chartref i'r Cynulliad. Gwrthgynhyrchiol fyddai edrych eto, ar yr adeg hon yn hynt y prosiect, ar ddefnyddio cyllid preifat ar gyfer yr adeilad newydd, a byddai'n arwain at wariant ofer ac oedi. Mae'r gwaith ar adeilad Pierhead wedi ei gwblhau.

Cwestiynau i Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol Questions to the Secretary for the Environment and Local Government

Machen Bypass

William Graham: The Machen bypass was originally planned in 1936. What plans are there to complete the bypass by 2036? (WAQ654VB)

The Secretary for the Environment and Local Government (Peter Law): Any proposals for a bypass for Machen are a matter for Caerphilly County Borough Council as local highway authority. This scheme was not submitted for transport grant support.

Ffordd Osgoi Machen

William Graham: Cafwyd cynlluniau i godi heol osgoi Machen yn 1936. Pa gynlluniau sydd yna i gwblhau'r ffordd osgoi erbyn 2036? (WAQ654VB)

Ysgrifennydd yr Amgylchedd a Llywodraeth Leol (Peter Law): Mae unrhyw gynigion i gael ffordd osgoi i Fachen yn fater i Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fel yr awdurdod priffyrd lleol. Ni chyflwynwyd y cynllun hwn i dderbyn cefnogaeth grant cludiant.

Southern Distribution Road for Newport

William Graham: What is the anticipated date for the opening of the southern distribution road for Newport financed by the private finance initiative? (WAQ655VB)

Peter Law: The scheme is the responsibility of Newport County Borough Council as local highway authority and timing of the project is a matter for them. They have started the tendering process and held a bidders day on 20 July to present details of the scheme to those firms who have expressed an interest following the advertisement in the *European Journal*.

Heol Ddosbarthu Ddeheuol ar gyfer Casnewydd

William Graham: Ar ba ddyddiad y gobeithir agor yr heol ddosbarthu ddeheuol ar gyfer Casnewydd a gyllidir gan y fenter cyllid preifat? (WAQ655VB)

Peter Law: Mae'r cynllun yn gyfifoldeb i Gyngor Bwrdeistref Sirol Casnewydd fel yr awdurdod priffyrd lleol ac y mae amseriad y prosiect yn fater iddynt hwy. Dechreuasant y broses o dendoro a chynhalwyd diwrnod cynigwyr ar 20 Gorffennaf i gyflwyno manylion y cynllun i'r cwmniau hynny sydd wedi datgan diddordeb yn dilyn yr hysbyseb yn yr *European Journal*.

The Welsh Context Company

William Graham: What contacts has Peter Law had with the PR company Welsh Context? (WAQ671VB)

Peter Law: I refer Mr Graham to the answer given by the First Secretary in response to question WAQ667VB.

Cwmni Welsh Context

William Graham: Pa gysylltiadau y mae Peter Law wedi'u cael â'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus Welsh Context? (WAQ671VB)

Peter Law: Cyfeiriaf Mr Graham at yr ateb a roddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i gwestiwn WAQ667VB.

M4 Closures

Peter Black: How many times in the past two years has the M4 in Wales been closed (a) due to smog between junctions 47 and 48 and (b) due to snow and icy conditions, and for what duration was it closed on each occasion? (WAQ563JS)

Peter Law:

(a) The M4 between junctions 47 and 48 has been closed nine times in the last two years due to smog:

25 February 1998 (2 hrs); 18 October 1998 (3 hrs); 25 November 1998 (4 hrs);

11 December 1998 (3.5 hrs); 22 December 1998 (5 hrs);

21 January 1999 (7.5 hrs); 21 January 1999 (8 hrs); 24 January 1999 (5 hrs);

10 February 1998 (5.5 hrs).

(b) The M4 in Wales has been closed once in the last two years due to snow and ice. This occurred on 15 April 1999, between junctions 32 and 36 with a duration of five and three-quarter hours.

Cau Traffordd yr M4

Peter Black: Sawl gwaith yn y ddwy flynedd diwethaf y bu'n rhaid cau'r M4 (a) oherwydd mwrrllwch rhwng cyffyrdd 47 a 48 a (b) oherwydd eira a rheu, ac am ba hyd y bu'r draffordd ar gau ar bob achlysur? (WAQ563JS)

Peter Law:

(a) Bu'n rhaid cau'r M4 rhwng cyffyrdd 47 a 48 naw gwaith yn y ddwy flynedd diwethaf oherwydd mwrrllwch:

25 Chwefror 1998 (2 awr); 18 Hydref 1998 (3 awr); 25 Tachwedd 1998 (4 awr);

11 Rhagfyr 1998 (3.5 awr); 22 Rhagfyr 1998 (5 awr);

21 Ionawr 1999 (7.5 awr); 21 Ionawr 1999 (8 awr); 24 Ionawr 1999 (5 awr);

10 Chwefror 1998 (5.5 awr).

(b) Bu'n rhaid cau'r M4 unwaith yn y ddwy flynedd diwethaf oherwydd eira a rheu. Digwyddodd hyn ar 15 Ebrill 1999 am gyfnod o bum awr a thri chwarter, rhwng cyffyrdd 32 a 36.

Traffic Reduction

Peter Black: What targets have been set for road traffic reduction in Wales pursuant to the Road Traffic Act? (WAQ644VB)

Peter Law: None. The Road Traffic Reduction Act 1997 requires local authorities to undertake a review of existing and forecast levels of traffic on local roads in their area and to prepare a report. These reports are required by August 2000 although local authorities have been asked to submit interim reports by 31 August this year as part of their 2000-2001 Transport Grant bids.

The Road Traffic Reduction (National Targets) Act 1998 places a duty on the National Assembly to consider and report on the need for national targets. I expect to report on this by the end of the year, taking into account the interim reports submitted by local authorities.

Lleihau Traffig

Peter Black: Beth yw'r targedau ar gyfer lleihau traffig yng Nghymru yn unol â'r Ddeddf Traffig Ffyrdd? (WAQ644VB)

Peter Law: Nid oes targedau wedi eu gosod. Mae Deddf Lleihau Traffig Ffyrdd 1997 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynnal arolwg o'r lefelau traffig presennol a'r rhai a ragwelir ar heolydd lleol yn eu ardal a pharatoi adroddiad. Mae angen yr adroddiadau hyn erbyn Awst 2000 ond gofynnir i awdurdodau lleol gyflwyno adroddiad yn dros dro erbyn 31 Awst eleni fel rhan o'u cynigion am Grant Trafnidiaeth 2000-2001.

Mae Deddf Lleihau Traffig Ffyrdd (Targedau Cenedlaethol) 1998 yn gosod dyletswydd ar y Cynulliad Cenedlaethol i ystyried yr angen am dargedau cenedlaethol a pharatoi adroddiad arnynt. Disgwyliaf allu cyflwyno adroddiad ar hyn erbyn diwedd y flwyddyn, gan ystyried yr adroddiadau dros dro a gyflwynwyd gan awdurdodau lleol.

Domestic Refuse

Peter Black: How many tonnes of domestic refuse were sent to landfill by each local authority in Wales for each of 1997-98 and 1998-99? (WAQ679JS)

Peter Law: There are no figures for domestic refuse alone. Information is collected annually on the total amount of municipal waste collected and disposed of by individual authorities. Data is not yet available for 1998-99. Figures for 1997-8 are:

Local Authority	Municipal waste landfilled (tonnes)
Blaenau Gwent	38,044
Bridgend	57,900
Caerphilly	60,566
Cardiff	135,556
Carmarthenshire	77,995
Ceredigion	33,365
Denbighshire	43,925
Gwynedd	54,550
Merthyr Tydfil	28,195
Monmouthshire	43,045
Neath Port Talbot	60,146
Newport	82,779
Powys	49,842
Torfaen	48,980
Swansea	106,917
Vale of Glamorgan	49,372
Wrexham	72,970
Ynys Môn/Isle of Anglesey	40,462

Source: Department of Environment, Transport and the Regions / The Welsh Office

The remaining authorities did not provide information.

Sbwriel Domestig

Peter Black: Sawl tunnell o sbwriel domestig gafodd eu hanfon i safleoedd tirlenwi gan bob awdurodod yng Nghymru ym 1997-98 ac ym 1998-99? (WAQ679JS)

Nid oes ffigurau ar gyfer sbwriel domestig yn unig. Cesglir ffigurau yn flynyddol ar y cyfanswm o wastraff trefol a gesglir ac y gwaredir gan awdurdodau unigol. Nid oes data ar gael am 1998-99 eto. Dyma ffigurau 1997-98.

<i>Awdurdod Lleol</i>	<i>Gwastraff Trefol mewn safleoedd tirlenwi (tunelli metrig)</i>
Blaenau Gwent	38,044
Pen-y-bont	57,900
Caerffili	60,566
Caerdydd	135,556
Sir Gaerfyrddin	77,995
Ceredigion	33,365
Sir Ddinbych	43,925
Gwynedd	54,550
Merthyr Tydfil	28,195
Sir Fynwy	43,045
Castell-nedd Port Talbot	60,146
Casnewydd	82,779
Powys	49,842
Torfaen	48,980
Abertawe	106,917
Bro Morgannwg	49,372
Wrecsam	72,970
Ynys Môn	40,462
<i>Ffynhonnell: Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau / Y Swyddfa Gymreig</i>	

Ni ddarparwyd gwybodaeth gan weddill yr awdurdodau.

Landfill Tax

Peter Black: Will Peter Law consider requiring local authorities to submit an annual return of how much landfill tax they have paid and what percentage of that has been committed to recycling schemes? (WAQ680VB)

Peter Law: I have no plans to impose this requirement on local authorities.

Treth Tirlenwi

Peter Black: A wnaiff Peter Law ystyried mynnu bod awdurdodau lleol yn cyflwyno adroddiad blynnyddol ar faint o dreth tirlenwi a dalwyd ganddynt a pha gyfran ohoni a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau ailgylchu? (WAQ680VB)

Peter Law: Nid oes gennys unrhyw gynlluniau i'w gwneud yn angenrheidiol i awdurdodau lleol wneud hyn.

Planning Applications (Welsh Office)

Peter Black: How many planning applications were called in by the Welsh Office prior to determination in 1996-97, 1997-98 and 1998-99? (WAQ663VB)

Peter Law: One planning application was called in by the Welsh Office in 1996-97, 12 in 1997-98 and 13 in 1998-99.

Ceisiadau Cynllunio (Y Swyddfa Gymreig)

Peter Black: Sawl cais cynllunio a alwyd i mewn gan y Swyddfa Gymreig cyn penderfynu arnynt ym 1996-97, 1997-98 a 1998-99? (WAQ663VB)

Peter Law: Galwyd un cais cynllunio i mewn gan y Swyddfa Gymreig ym 1996-97, 12 ym 1997-98 ac 13 ym 1998-99.

Tactile Paving Surfaces (Local Authorities)

Peter Black: What guidance has been issued to Welsh local authorities on the use of tactile paving surfaces? (WAQ710JS)

Peter Law: The publication 'Guidance on the use of Tactile Paving Surfaces' was issued to local authorities in Wales, in January 1999. A copy is in the Library.

Pafinau Botymog (Awdurdodau Lleol)

Peter Black: Pa ganllawiau sydd wedi'u rhoi i awdurdodau lleol Cymru ynghylch defnyddio pafinau botymog? (WAQ 710JS)

Peter Law: Cyflwynwyd y cyhoeddiad 'Guidance on the use of Tactile Paving Surfaces' i awdurdodau lleol yng Nghymru, ym mis Ionawr 1999. Mae copi yn y Llyfrgell.

Taxi Card Scheme for Disabled People

Peter Black: What consideration has been given to introducing a taxi card scheme in Wales for people with disabilities? (WAQ711JS)

Peter Law: The National Assembly for Wales is responsible for overseeing the administration of concessionary travel schemes operated by local authorities in Wales. Authorities may at their discretion provide eligible persons including people with disabilities with concessions on any form of public passenger transport which, as defined in Section 63(10)(a) of the Transport Act 1985, includes taxis. Local authorities make financial provision for their concessionary travel schemes from the resources available to them.

Cynllun Cardiau Tacsi i Bobl Anabl

Peter Black: Pa ystyriaeth sydd wedi'i rhoi i gyflwyno cynllun cardiau tacsi yng Nghymru ar gyfer pobl ag anableddau? (WAQ711JS)

Peter Law: Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gyfrifol am oruchwyllo gweiniddu cynlluniau teithio consesiynol sy'n cael eu gweithredu gan awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ôl eu disgrifiwn, gall awdurdodau roi consesiynau i bobl gymwys, gan gynnwys pobl ag anableddau, ar unrhyw fath o gludiant cyhoeddus sydd, fel y'i diffinnir yn Adran 63(10)(a) o

Ddeddf Drafnidiaeth 1985, yn cynnwys tacsis. Mae awdurdodau lleol yn darparu'n ariannol ar gyfer eu cynlluniau teithio consesiynol o'r adnoddau sydd ar gael iddynt.

Renovation Grant Fraud

Peter Black: What discussions has Peter Law had with local councils in Wales as to how they can reduce the level of renovation grant fraud which rose by more than 40 per cent between 1997 and 1998? (WAQ725VB)

Peter Law: Local authorities are responsible for the administration of the home renovation grant system and have very detailed guidance from the National Assembly for Wales which stresses the importance of them having arrangements in place to detect and deal with fraud. Authorities must notify the National Assembly if they suspect fraud.

In addition to written guidance, Assembly officials have discussed the importance of detecting fraud at meetings with local authorities to consider their housing strategies, and at a seminar on fraud held in 1997, which also involved the police and district audit service.

Twyll Grant Adnewyddu

Peter Black: Pa drafodaethau y mae Peter Law wedi'u cael gyda chynghorau lleol yng Nghymru ynglŷn â sut y gallant leihau'r lefelau o dwyll mewn perthynas â'r grant adnewyddu a gododd fwy na 40 y cant rhwng 1997 a 1998? (WAQ725VB)

Peter Law: Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am weiniddu system grantiau adnewyddu tai a rhoddwyd iddynt ganllawiau manwl gan Cenedlaethol Cymru sy'n pwysleisio pwysigrwydd trefniadau datgelu a delio â thwyll. Rhaid i awdurdodau hysbysu'r Cynulliad Cenedlaethol os ydynt yn amau twyll.

Yn ogystal â rhoi canllawiau ysgrifenedig, mae swyddogion y Cynulliad wedi trafod pwysigrwydd datgelu twyll mewn cyfarfodydd ag awdurdodau lleol lle rhoddwyd sylw i'w strategaethau tai, ac mewn seminar ar dwyll a gynhalwyd ym 1997, a oedd hefyd yn cynnwys yr heddlu a gwasanaeth archwilio rhanbarthol.

Planning Appeals and Applications

Peter Black: What is the process for dealing with planning appeals and for calling in planning applications prior to the formation of the planning panel, which will comprise Environment Committee members? (WAQ721VB)

Peter Law: The majority of planning appeals will continue to be determined by the Planning Inspectorate on behalf of the Assembly. Any planning appeals coming before the Assembly before the panel is established can be decided under the existing delegations by myself or the First Secretary. Should it be appropriate to do so, we will defer making a decision until the panel is able to consider it. It is not intended that the panel will have any part in deciding whether to call in a planning application for the Assembly to determine.

Apeliadau a Cheisiadau Cynllunio

Peter Black: Sut mae delio ag apeliadau cynllunio a galw i mewn geisiadau cynllunio cyn ffurfio'r panel cynllunio, a fydd yn cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Amgylchedd? (WAQ721VB)

Peter Law: Bydd mwyafrif yr apeliadau cynllunio yn parhau i gael eu penderfynu gan yr Arolygiaeth Gynllunio ar ran y Cynulliad. Caiff unrhyw apêl cynllunio a ddaw gerbron y Cynulliad cyn i'r panel gael ei sefydlu eu penderfynu o dan y dirprwyaethau presennol, gennyf i fy hun neu'r Prif Ysgrifennydd. Os yw'n briodol, byddwn yn gohirio penderfynu nes bod y panel yn gallu ei ystyried. Ni fwriedir i'r panel gael llais wrth benderfynu a ddylid galw cais cynllunio i mewn er mwyn i'r Cynulliad benderfynu yn ei gylch.

Wood-Burning Fuel Station (Newbridge-on-Wye)

Nick Bourne: Has Peter Law received representations regarding a proposed wood-burning fuel station at Newbridge-on-Wye, Powys, and will he publish them? (WAQ693JS)

Peter Law: I have received no representations about this proposal to date.

Gorsaf Danwydd i Losgi Pren (Y Bontnewydd ar Wy)

Nick Bourne: A yw Peter Law wedi derbyn unrhyw sylwadau ynglyn â'r orsaf danwydd arfaethedig i losgi pren yn y Bontnewydd ar Wy, Powys, ac a fydd yn eu cyhoeddi? (WAQ693JS)

Peter Law: Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau ynglyn â'r cynnig hwn hyd yma.

Anti-Fraud Strategy (Local Councils)

Peter Black: What action is Peter Law taking to encourage those Welsh councils which have not yet developed an anti-fraud strategy, to do so? (WAQ724VB)

Peter Law: I shall be writing to the leader of each Welsh local authority that has not yet prepared an anti-fraud strategy asking them what action they propose to take to remedy the situation. I will consider whether any further action is necessary in the light of their responses.

Strategaeth Atal Twyll (Cyngorau Lleol)

Peter Black: Pa gamau y mae Peter Law yn eu cymryd i annog y cyngorau hynny yng Nghymru sydd heb ddatblygu strategaeth atal twyll eto i wneud hynny? (WAQ724VB)

Peter Law: Byddaf yn ysgrifennu at arweinydd pob un o awdurdodau lleol Cymru nad ydynt wedi paratoi strategaeth atal twyll eto, gan ofyn iddynt pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd i wella'r sefyllfa. Byddaf yn ystyried a oes angen camau pellach yng ngoleuni eu hymatebion.

Heavy Lorries and Through Traffic

Nick Bourne: What schemes is Peter Law promoting to take heavy lorries and through traffic out of towns and villages of Wales? (WAQ742VB)

Peter Law: There are three major trunk road bypasses currently being constructed, which will take through traffic out of the communities along the existing routes. These are:

- A40 Carmarthen Eastern Bypass;
- A40 Fishguard Western Bypass; and
- A55 Llandegai to Holyhead

Other schemes in the trunk roads programme, will be reviewed in the Autumn by the National Assembly to determine priorities in relation to the available transport funding.

Lorïau Trwm a Thrafnidiaeth Drwodd

Nick Bourne: Pa gynlluniau y mae Peter Law yn eu hybu i symud lorïau trwm a thrafnidiaeth drwodd o bentrefi a threfi Cymru? (WAQ742VB)

Peter Law: Mae ffyrdd osgoi wrthi'n cael eu hadeiladu ar dair ffordd gysylltu bwysig, a byddant yn mynd â thraffig o'r cymunedau ar hyd y ffyrdd presennol. Y ffyrdd yw:

A40 Ffordd Osgoi Ddwyreiniol Caerfyrddin;
SG99/214	A systematic review of the effectiveness of mental health screening available for adolescents in schools	Dr Anne Fothergill, Lecturer in Nursing Studies, School of Nursing Studies, University of Wales College of Medicine	£9,948	12	Funded		
WS97/1/00 9	Newborn screening for Cystic Fibrosis (CF): A psychosocial study	Ms Carolyn Eason, Researcher, Institute of Medical Genetics, University of Wales College of Medicine	£30,979	27	Funded	01-01-98	01-04 -00

Ymchwil ym Maes Lles Plant

Richard Edwards: A wnaiff Jane Hutt restru'r ymchwil ym maes lles plant a gomisiynwyd gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru yn y ddwy flynedd ddiwethaf, gan nodi'r prosiectau yr ymgwymerwyd â hwy, gwerth pob contract, a'r cyrff y rhoddwyd contractau iddynt? (WAQ723VB)

Jane Hutt: Mae'r rhestr isod yn cynnwys yr holl brosiectau ymchwil lles plant sydd wedi cael eu hariannu gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf (Gorffennaf 1997—Gorffennaf 1999). Mae'r rhestr wedi'i rhannu'n ddwy ran, yn ymwneud â lles plant ac â iechyd plant lle ceir agwedd ar le. Mae'r prosiectau sydd heb ddyddiadau dechrau a gorffen wedi eu cymeradwyo yn ddiweddar.

Prosiectau a Ariannwyd gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru (Gorffennaf 1997—Gorffennaf 1999)

Lles Plant

Rhif Prosiect	Teitl Prosiect	Prif Ymchwilydd a Mudiad	Swm	Cyfnod (misoedd)	Statws	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen
	Astudiaeth o Adroddiadau Arolwg a Gyflwynwyd i'r Swyddfa Gymreig dan Ran 8 o Gydweithio dan Ddeddf Plant 1989	Mark Owers, Canolfan Ymchwil ar y Plentyn a'r Teulu, Prifysgol EastAnglia	£9,977	3	Wedi ei gwblhau	01-01-99	31-03-99
	Arolwg o Wasanaethau Cymorth i Deuluoedd	Dr June Statham, Uned Ymchwil Thomas Corum, Y Drenwydd	£8,825	3	Wedi ei ariannu	21-06-99	17-09-99
ADV98/0001	Adfocatiaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifanc	Dr Howard Williamson, Uwch Ymchwilydd Cynorthwyol, Ysgol Astudiaethau Cymdeithasol a Gweinyddol, Prifysgol Cymru Caerdydd	£19,985	6	Wedi ei ariannu	16-09-98	15-03-99
B97/028	Canlyniadau gofal domestig gan blant ac effeithiolrwydd cymorth cymdeithasol	Mr Tony Newman, Barnardos, Caerdydd	£4,834	39	Wedi ei ariannu	07-10-97	06-01-01
C97/1/005	Ymyrraeth yn seiliedig ar boblogaeth ar gyfer problemau seicolegol mewn plant ifanc: arbwraf dan reolaeth	Dr Peter Appleton, Uwch Ddarlithydd mewn Seicoleg Clinigol, Cynllun Gofal Cynradd i Blant Sir Fflint	£199,939	37	Wedi ei ariannu	01-04-98	30-04-01
C98/2/017	Datblygiad a chymhariaeth o ddau fesurydd o safon byw ar gyfer eu defnyddio gyda phlant y DU	Yr Athro John G Williams, Cyfarwyddwr/Cydgysylltydd Y a D, Ysgol Astudiaethau Ol-raddedig mewn Gofal Iechyd a Meddygol	£199,796	36	Wedi ei ariannu	I'w ystyried	
R98/1/010	Dadansoddiad cost-effeithiol o ymyrraeth aml-asiantaeth, yn seiliedig ar gymuned ar gyfer problemau seicolegol mewn plant ifanc o oed ysgol	Dr Rhiannon Tudor Edwards, Uwch Gymrawd Ymchwil, Sefydliad Ymchwil Meddygol a Gofal Cymdeithasol, Prifysgol Cymru Bangor	£48,340	24	Wedi ei ariannu	04-01-99	03-01-01
R98/1/027	Asesiad anghenion	Dr Elspeth Webb, Uwch	£20,138	12	Wedi ei	01-03-99	28-02-00

Rhif Prosiect	Teitl Prosiect	Prif Ymchwilydd a Mudiad	Swm	Cyfnod (misoedd)	Statws	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen
	iechyd ac anghenion gofal iechyd o boblogaeth o blant yn byw mewn llochesau i ferched sy'n dioddef o drais ar yr aelwyd	Ddarlithydd mewn Iechyd Cymunedol Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru			ariannu		
SC97/1/003	Achosion a Chyberthnasau Gwahardd o'r Ysgol: A All Darpariaeth Gymdeithasol wedi ei Thargedu Atal Methiant yn yr Ysgol?	Dr Kevin Haines, Darlithydd, Adran Polisi Cymdeithasol ac Astudiaethau Cymdeithasol Cymhwysol, Prifysgol Cymru Abertawe	£53,923	18	Wedi ei ariannu	01-01-98	30-09-99
SC97/1/014	Magu plant yn gadarnhaol: Y canlyniadau i blant	Ms Catriona Williams, Prif Weithredwraig, Plant yng Nghymru	£38,145	12	Wedi ei gwblhau	01-12-97	01-01-99
SC97/1/017	Datblygu Model o Asesiad Economaidd mewn Cynorthwyo Teuluoedd ac Amddiffyn Plant	Mr Michael O'Leary, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£31,725	12	Wedi ei gwblhau	02-02-98	02-02-99
SCC99/1/001	Datblygiad Rhwydwaith Dadansoddi Data (DAN) ar gyfer Plant a Warchodir	Dr Harriet Ward, Ysgol Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Caerlŷr	Angen ei gadarnhau	36	Wedi ei ariannu	I'w ystyried	
SCR98/1/014	Rheoli ymddygiad herfeiddiol mewn gofal maeth: datblygu'r arfer gorau trwy hyfforddiant ac asesiad	Dr Andrew Pithouse, Uwch Ddarlithydd, Ysgol Astudiaethau Cymdeithasol a Gweinyddol, Prifysgol Cymru Caerdydd	£91,400	24	Wedi ei ariannu	01-01-99	31-12-00
SCR98/1/022	Cynorthwyo teuluoedd: cymhariaeth o ganlyniadau ac asesiad economaidd o wasanaethau ar gyfer plant mewn angen mewn dwy ardal	Dr June Statham, Swyddog Ymchwil, Uned Ymchwil Thomas Corum	£94,280	24	Wedi ei ariannu	11-01-99	10-01-01
SCS99/1/001	Esgeulustra: amgyffrediad a dull gweithredu aml-asiantaeth	Ms Charlotte Drury, Gweithwraig Gymdeithasol, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	£24,241	6	Wedi ei ariannu	I'w ystyried	
SCSG98/012	Gwaharddiad cymdeithasol pobl ifanc mewn cyd-destun gwledig – astudiaeth achos o Lanrwst	Ms Sue James, Swyddog Cynllunio, Adran Gwasanaethau Cymdeithasol, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	£5,000	12	Wedi ei ariannu	04-01-99	03-01-00
SG97/065	Mesuriad o safon bywyd plant ag afiechyd yn parhaol	Dr Meriel Jenney, Oncolegydd Pediatric Ymgynghorol, Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol	£4,870	9	Wedi ei gwblhau	01-10-97	30-06-98

Rhif Prosiect	Teitl Prosiect	Prif Ymchwilydd a Mudiad	Swm	Cyfnod (misoedd)	Statws	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Gorffen
		Cymru					
SG98/154	Problemau corfforol ac ymddygiadol mewn carfan o fechgyn wedi eu cam-drin – Atodiad pum mlynedd	Dr Alison Maddocks, Pediatregydd Ymgynghorol (Cymuned), Ymddiriedolaeth GIC Abertawe	£3,214	5	Yn amodol ar newid protocol	I'w ystyried	

Prosiectau a Ariannwyd gan Swyddfa Ymchwil a Datblygu Cymru
(Gorffennaf 1997—Gorffennaf 1999)

Iechyd Plant

Rhif Prosiect	Teitl Prosiect	Prif Ymchwilydd a Mudiad	Swm	Cyfnod (misoedd)	Statws	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
B97/014	Doethuriaeth: Archwiliad o brofiad rhieni o reoli yn y cartref gyda phlant y canfuwyd bod clefyd siwgwr arnynt yn ddiweddar	Ms Lesley Lowes, Nyrs Arbenigol mewn Clefyd Siwgwr Pediatrig, Adran Iechyd Plant, Ysbyty Prifysgol Cymru ac Ymddiriedolaeth GIC Ysbyty Llandochau	£7,120	39	Wedi ei ariannu	01-10-97	30-12-00
F96/1/005	Gofal Nyrsio o Blant yn y Gymuned: Astudiaeth yng Nghymru	Dr Nicola Eaton, Darlithydd mewn Nyrsio, Ysgol Gwyddorau Iechyd, Prifysgol Cymru, Abertawe	£122,394	39	Wedi ei ariannu	01-10-97	31-12-00
R96/1/099	Gwerthuso a defnyddio'r rhaglen CASPA i adnabod hyrwyddwyr ymddygiad cymdeithasol mewn cleifion ag awtisiaeth	Dr Dawn Wimpory, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, Yr Adran Seicoleg, Prifysgol Cymru Bangor	£69,803	27	Wedi ei ariannu	14-04-98	13-07-00
R96/2/045	Y prawf cof hunangoiannol rhiant-plentyн – targedu plant â phroblemau ymddygiad sydd angen hyfforddiant penodol ychwanegol	Dr Judy Hutchings, Seicolegydd Clinigol Ymgynghorol, Ysgol Seicoleg, Prifysgol Cymru Bangor	£49,596	21	Wedi ei ariannu	01-07-98	31-03-00
SG97/032	Asesu dulliau o ofal lleddfol ar gyfer plant yn Ne Morgannwg	Mrs Ruth E Davies, Darlithwraig mewn Nyrsio Pediatrig, Ysgol Astudiaethau Nyrsio, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	£4,305	12	Wedi ei gwblhau	31-10-97	01-11-98
SG97/033	Uned Wyliadwriaeth Bediatrig Cymru	Yr Athro Jo Sibert, Athro Iechyd Plant Cymunedol, Adran Iechyd Plant, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	£4,864	12	Wedi ei gwblhau	01-07-97	30-06-98
SG97/041	Mesuriad o lefelau gweithgarwch corfforol mewn plant gordew a rhai cyffredin: astudiaeth yn defnyddio telemetreg cyfradd calon a mesureg cyflymu tri dimensiwn	Dr Roger Eston, Uwch Ddarlithydd, Ffisioleg Dynol, Ysgol Gwyddorau Chwaraeon, Iechyd ac Addysg Gorfforol, Prifysgol Cymru Bangor	£4,215	12	Wedi ei gwblhau	01-07-97	30-06-98
SG97/078	Asesiad o effeithiolrwydd cynllun peilot â'r amcan o hybu partneriaethau gyda rhieni mewn ysgolion	Mrs Chris Gittoes, Cyngorwraig Hyrwyddo Iechyd Ardal, Uned Hyrwyddo Iechyd, Ymddiriedolaeth Gofal	£5,000	12	Wedi ei gwblhau	01-11-97	31-10-98

Rhif Prosiect	Teitl Prosiect	Prif Ymchwilydd a Mudiad	Swm	Cyfnod (misoedd)	Statws	Dyddiad dechrau	Dyddiad gorffen
	cynradd	Iechyd GIC Powys					
SG98/138	Arbrawf rheoledig ar hap o'r dull cribo gwlyb a malathion ar gyfer trin llau pen	Dr Richard Roberts, Ymgynghorydd mewn Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Adran Meddygaeth Iechyd Cyhoeddus, Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru	£4,995	11	Wedi ei ariannu	03-03-99	02-02-00
SG98/140	Dylanwad epilepsi wedi ei reoli yn wael ar y teulu a gweithrediad y teulu	Dr Dominic Upton, Uwch Ddarlithydd, Cyfadran y Gwyddorau Iechyd Cymunedol, Sefydliad Prifysgol Cymru, Caerdydd	£4,798	12	Wedi ei ariannu	01-03-98	28-02-99
SG98/162	Galluogi cyfathrebu mewn plant cyn siarad sydd ag afiechydon datblygiadol hollbresennol: rhaglen ar gyfer ymyriad yn arwain at arfer cydweithredol rhwng therapydd lleferydd ac iaith, rhieni ac athrawon	Mrs Julia Scotland, Therapydd Arbenigol mewn Lleferydd ac Iaith, Ysbyty Prifysgol Cymru aS Ymddiriedolaeth GIC Llandochau	£589	10	Wedi ei ariannu	15-07-98	31-05-99
SG99/208	Datblygu strategaeth ar gyfer lleihau afiachusrwydd yn dilyn anafriadau ysgol	Dr WR Williams, Cymrawd Ymchwil, Uned Ymchwil Nyrssio, Prifysgol Morgannwg	£9,563	12	Wedi ei ariannu		
SG99/214	Arolwg systematig o effeithiolrwydd sgrînio iechyd meddwl sydd ar gael ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion	Dr Anne Fothergill, Darlithwraig mewn Astudiaethau Nyrssio, Ysgol Astudiaethau Nyrssio, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	£9,948	12	Wedi ei ariannu		
WS97/1/009	Sgrinio babanod newydd-anedig am Ffibrosis Systig (CF): astudiaeth seicolegol	Ms Carolyn Eason, Ymchwilydd, Sefydliad Geneteg Meddygol, Coleg Meddygaeth Prifysgol Cymru	£30,979	27	Wedi ei ariannu	01-01-98	01-04-00

Detoxification of Patients

Peter Black: How many beds are there in Welsh hospitals and other establishments dedicated to detoxification of patients dependent on drugs and alcohol? Where are they located and what size of population do they serve? (WAQ712JS)

Jane Hutt: The five Welsh Health Authorities make the following provision in their areas, community services have been included to provide a comprehensive picture.

Iechyd Morgannwg Health Authority

Four beds at Cefn Coed Hospital, Swansea, serving the population of the County Borough of Swansea and Neath Port Talbot. This service is also utilised by residents of Dyfed Powys.

There are no designated facilities in Bridgend, although individuals can access a service via the acute psychiatric unit at Coity Clinic, Bridgend. This service is utilised by the population of the County Borough of Bridgend and the Vale of Glamorgan.

The health authority recognises this is an important area that requires further development. An expansion of substance misuse and detoxification services are envisaged within the authority's Mental Health Strategic Action Plan, including an investment of over £180,000 during the current year. That includes piloting the development of a new community-based model for a detoxification service in Bridgend. The authority will be looking to extend this new model of service to Swansea in the future.

Gwent Health Authority

Service for drugs and alcohol co-ordinated by Gwent Healthcare NHS Trust.
Two designated detoxification beds based at St. Cadoc's Hospital, Caerleon.

The beds service the whole of the Gwent area population, approximately 556,916. The service's philosophy is to treat individuals in community settings through drug substitution methods. If individuals experience a crisis the identified beds will be used. The inpatient facilities will be utilised until the individual is stabilised at which time the community treatment programme will be instigated or re-commenced. For newly identified patients, access to the beds will be part of a planned programme.

A bed is also available in the Talygarn Unit, Pontypool. This bed is available for alcohol detoxification and is accessed by the Community Mental Health Team. The bed was designated for use by residents of the Torfaen County Borough, approximately 90,416 people.

Dyfed Powys Health Authority

There is a limited community detoxification service throughout Dyfed for drugs and in Pembrokeshire for drugs and alcohol. Both services are available in a community setting in Powys. The health authority is reviewing the resources tied up in external specialist substance misuse services and is considering reallocating those resources to develop and expand detoxification services for people with drug and alcohol problems throughout Dyfed Powys. There is social services residential accommodation for substance misuse rehabilitation, but the associated budgets are limited. There are no dedicated NHS drug and alcohol beds in Dyfed Powys. However, some of the adult acute beds in Dyfed may be used for people with substance misuse problems although that is not their primary diagnosis. The health authority has a service agreement with Bro Morgannwg NHS Trust and Cardiff Community to provide in-patient services. Powys patients have one bed in Shelton Hospital in Shrewsbury. The Health Authority serves a population of 470,000.

Bro Taf

South Bro Taf has eight beds dedicated to detoxification for patients with drug and alcohol dependency. They are located in Ward West 4A of the ADFER unit at Whitchurch.

In North Bro Taf patients have access to the ‘detox’ unit at Whitchurch Hospital. There are no specific detoxification beds in North Bro Taf. Patients with dual diagnosis, for example, those suffering from mental illness and substance misuse problems also receive treatment in the acute mental illness beds at the Prince Charles Hospital and East Glamorgan General Hospital. However, there are no beds in these units specifically related to detoxification. The dual diagnosis patients are admitted into the general compliment of acute mental illness beds. There is significant pressure on these beds.

Approval has been given for a home detoxification service in Merthyr, which will start in September. It will be run by Drugaid and will cover Merthyr involving a home detox nurse, rehabilitation worker and a family support worker.

There is also the Taff Ely Drugs Support home detoxification and rehabilitation programme. This has been in place since January 1997, and covers Rhondda, Cynon and Taff although around 51 per cent of the referrals come from Taff Ely.

The facility at Whitchurch Hospital serves a population of 800,000.

North Wales Health Authority

20 beds in Hafan Wen, Wrexham provided by the North Wales Medical Trust, a private sector provider. They have agreed to provide four additional beds as and when required at marginal cost to the HA. Two other beds are available at the Hergest Unit, Ysbyty Gwynedd, Bangor. The authority serves a population of approximately 650,000. Further information can be obtained in ‘A Directory of Drug and Alcohol Services in Wales’.

Dadwenwyno Cleifion

Peter Black: Sawl gwely sydd wedi'i neilltuo yn ysbytai Cymru a sefydliadau eraill ar gyfer dadwenwyno cleifion sydd yn ddibynnol ar alcohol a chyffuriau? Ym mhle y maent a faint o bobl a wasanaethir ganddynt? (WAQ712JS)

Jane Hutt: Mae pum Awdurdod Iechyd Cymru yn gwneud y ddarpariaeth ganlynol yn eu hardaloedd. Mae gwasanaethau cymunedol wedi'u cynnwys er mwyn rhoi darlun cynhwysfawr.

Awdurdod Iechyd Morgannwg

Ceir pedwar gwely yn Ysbyty Cefn Coed, Abertawe, sy'n gwasanaethu poblogaeth Bwrdeistref Sirol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot. Defnyddir y gwasanaeth hwn hefyd gan drigolion Dyfed Powys. Nid oes unrhyw gyfleusterau penodedig ym Mhen-y-bont ar Ogwr, er y gall unigolion gael mynediad i wasanaeth drwy'r uned seiciatrig dwys yng Nghlinig Coity, Pen-y-bont ar Ogwr. Defnyddir y gwasanaeth hwn gan boblogaeth Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg.

Mae'r awdurdod iechyd yn cydnabod bod hwn yn faes pwysig sy'n gofyn am ddatblygu pellach. Rhagwelir y bydd y gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a dadwenwyno yn ehangu o fewn Cynllun Gweithredu Strategol Iechyd Meddwl yr awdurdod, gan gynnwys buddsoddiad o dros £180,000 yn ystod y flwyddyn gyfredol. Mae hynny'n cynnwys treialu datblygu model newydd cymunedol ar gyfer gwasanaeth dadwenwyno ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Bydd yr awdurdod yn ceisio ymestyn y model newydd hwn o wasanaeth i Abertawe yn y dyfodol.

Awdurdod Iechyd Gwent

Mae'r gwasanaeth ar gyfer cyffuriau ac alcohol yn cael ei gydgysylltu gan Ymddiriedolaeth NHS Gofal Iechyd Gwent. Ceir dau wely penodedig ar gyfer dadwenwyno yn Ysbyty St. Cadoc, Caerleon.

Mae'r gwelyau yn gwasanaethu holl boblogaeth Gwent, sef tua 556,916. Athroniaeth y gwasanaeth yw trin unigolion mewn sefyllfa gymunedol drwy ddefnyddio cyffuriau cyfreithlon yn lle'r rhai anghyfreithlon. Os yw unigolion yn profi argyfwng defnyddir y gwelyau penodedig. Defnyddir y cyfleusterau ar gyfer cleifion mewnol nes bod yr unigolyn yn sefydlog a phryd hynny symbylir neu ail-ddechreuir y rhaglen o roi triniaeth yn y gymuned. Yn achos cleifion newydd, bydd mynediad i'r gwelyau yn rhan o raglen sydd wedi'i chynllunio.

Ceir gwely yn Uned Talygarn, Pont-y-pŵl hefyd. Mae'r gwely hwn ar gael ar gyfer dadwenwyno alcohol a gellir cael mynediad iddo drwy'r Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Cafodd y gwely ei neilltuo ar gyfer trigolion Bwrdeistref Sirol Tor-faen, sef tua 90,416 o bobl.

Awdurdod Iechyd Dyfed Powys

Ceir gwasanaeth dadwenwyno cymunedol cyfyngedig yn Nyfed ar gyfer cyffuriau ac yn Sir Benfro ar gyfer cyffuriau ac alcohol. Mae'r ddau wasanaeth ar gael yn y gymuned ym Mhowys. Mae'r awdurdod iechyd yn adolygu'r adnoddau sydd ynghlwm wrth wasanaethau arbenigol, allanol ar gyfer camddefnyddio sylweddau, ac yn ystyried defnyddio'r adnoddau hynny i ddatblygu ac ehangu gwasanaethau dadwenwyno ar gyfer pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn Nyfed a Phowys. Ceir cartrefi preswyl gan y gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer adsefydlu pobl sy'n camddefnyddio sylweddau, ond mae'r cyllidebau cysylltiedig yn gyfyngedig. Ni cheir gwelyau cyffuriau ac alcohol NHS penodedig yn Nyfed Powys. Fodd bynnag, gellir defnyddio rhai o'r gwelyau dwys i oedolion ar gyfer pobl sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau, er nad dyna'u prif ddiagnosis. Mae gan yr awdurdod iechyd gytundeb gwasanaeth gydag Ymddiriedolaeth NHS Bro Morgannwg a Chymuned Caerdydd er mwyn darparu gwasanaethau i gleifion mewnol. Mae gan gleifion Powys un gwely yn Ysbyty Shelton yn Amwythig. Mae'r awdurdod iechyd yn gwasanaethu poblogaeth o 470,000.

Bro Taf

Mae gan Dde Bro Taf wyth gwely penodol ar gyfer dadwenwyno cleifion sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol. Maent wedi'u lleoli yn Ward West 4A yn uned ADFER, yr Eglwys Newydd.

Yng ngogledd Bro Taf gall cleifion ddefnyddio uned ddadwenwyno Ysbyty'r Eglwys Newydd. Nid oes unrhyw welyau dadwenwyno penodol yng ngogledd Bro Taf. Mae cleifion sy'n dioddef o ddua salwch, megis y rheini sy'n dioddef o salwch meddwl ac sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau hefyd yn cael triniaeth yn y gwelyau salwch meddwl dwys yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac Ysbyty Cyffredinol Dwyrain Morgannwg. Fodd bynnag, nid oes gwelyau yn yr unedau hyn sydd wedi'u neilltuo'n benodol ar gyfer dadwenwyno. Mae'r cleifion sy'n dioddef o ddua salwch yn cael defnyddio'r gwelyau salwch meddwl dwys a ddarperir. Mae galw sylweddol am y gwelyau hyn.

Mae gwasanaeth dadwenwyno yn y cartref wedi'i gymeradwyo ym Merthyr, a bydd yn dechrau fis Medi. Bydd yn cael ei redeg gan Drugaid a bydd yn cynnwys Merthyr. Bydd nyrs dadwenwyno yn y cartref, gweithiwr adsefydlu a gweithiwr cymorth teulu yn rhan o'r gwasanaeth.

Ceir rhaglen dadwenwyno ac adsefydlu yn y cartref gan Gymorth Cyffuriau Taf-Elái hefyd. Mae'r rhaglen hon wedi'i sefydlu ers Ionawr 1997, ac mae'n cynnwys y Rhondda, Cynon a Thaf er bod oddeutu 51 y cant o'r ymgyngoriadau yn dod o Daf-Elái.

Mae'r cyfleusterau yn Ysbyty'r Eglwys Newydd yn gwasanaethu poblogaeth o 800,000.

Awdurdod Iechyd Gogledd Cymru

Ceir 20 gwely yn Hafan Wen, Wrecsam wedi'u darparu gan Ymddiriedolaeth Feddygol Gogledd Cymru, darparwr sector preifat. Maent wedi cytuno i ddarparu pedwar gwely ychwanegol, yn ôl y gofyn, a bydd hynny yn costio ychydig i'r Awdurdod Iechyd. Mae dau wely arall ar gael yn Uned Hergest, Ysbyty Gwynedd, Bangor. Mae'r awdurdod yn gwasanaethu poblogaeth o tua 650,000.

Gellir cael gwybodaeth bellach yn 'A Directory of Drug and Alcohol Services in Wales'.

Rehabilitation Facilities (Drugs and Alcohol)

Peter Black: What facilities are available in Wales for the rehabilitation of those dependent on drugs and alcohol, where are they located, what is the capacity of each facility and what are the average waiting times for admission to each. (WAQ713JS)

Jane Hutt: As part of its contract with the Welsh Office the Welsh Drug and Alcohol Unit produced in 1997 'A Directory of Drug and Alcohol Services in Wales' which provides information about drug and alcohol services in Wales. This assists referrers in identifying the most suitable service for their client and should improve interagency communication and collaboration. It covers the statutory and non-statutory sectors and contains information on staffing, philosophy of care and estimates of waiting time. A copy will be placed in the Assembly Library.

Cyfleusterau Adsefydlu (Cyffuriau ac Alcohol)

Peter Black: Pa gyfleusterau sydd ar gael yng Nghymru ar gyfer adsefydlu'r rheini sy'n ddibynnol ar gyffuriau ac alcohol, ym mhle y maent, faint o gleifion y mae pob cyfleuster yn gallu'u derbyn, a beth yw'r amserau aros, ar gyfartaledd, ar gyfer cael mynediad i bob un ohonynt. (WAQ713JS)

Jane Hutt: Fel rhan o'i chytundeb â'r Swyddfa Gymreig, gyhoeddodd Uned Gyffuriau ac Alcohol Cymru 'A Directory of Drug and Alcohol Services in Wales' ym 1997, sy'n rhoi gwybodaeth am wasanaethau cyffuriau ac alcohol yng Nghymru. Mae hyn yn cynorthwyo cynhorwyr i weld pa wasanaeth sy'n fwyaf addas i'w cwsmer a dylai wella cyfathrebu a chydweithio rhwng asiantaethau. Mae'n cynnwys y sectorau statudol ac anstatudol ac yn cynnwys gwybodaeth am staff, athroniaeth gofal ac amcangyfrifon o amseroedd aros. Rhoddir copi yn Llyfrgell y Cynulliad.

Waiting Time for Detoxification

Peter Black: What is the average waiting time for admission to an NHS facility for the detoxification of patients dependent on drugs and alcohol in Wales? (WAQ714JS)

Jane Hutt: Average waiting times for such admissions are not held centrally. However the following information has been obtained from the five health authorities for waiting times applicable in their areas:

Iechyd Morgannwg HA

On average there is a three month waiting time for admission to the beds at Cefn Coed Hospital, Swansea (serving the population of the County Borough of Swansea and Neath Port Talbot). Since there are no designated beds for the County of Bridgend and the Vale of Glamorgan it is not possible to provide detailed information on waiting times in these areas.

Gwent HA

There are no waiting lists for the beds and all usage is planned and programmed.

Dyfed Powys HA

Shelton Hospital in Shrewsbury has a current waiting time of two to three weeks.

Bro Taf

In south Bro Taf the average waiting time for admission to Whitchurch Hospital is six to eight weeks.

In north Bro Taf the waiting time between referral and assessment is around four days, and from referral to admission around eight days. The health authority's aim is to act when the client is most motivated.

North Wales HA

Waiting times , with one exception, vary between a few days to two months. Priority is given to young people under 16 and pregnant women. The exception is Hafan Wen, Wrexham, which has a maximum waiting time of five months for its alcohol detoxification services

Amser Aros ar gyfer Dadwenwyno

Peter Black: Beth yw'r amser aros, ar gyfartaledd, ar gyfer cael mynediad i gyfleuster NHS ar gyfer dadwenwyno cleifion sy'n ddibynnol ar alcohol a chyffuriau yng Nghymru? (WAQ714JS)

Jane Hutt: Ni chedwir amseroedd aros cyfartalog ar gyfer mynediadau o'r fath yn ganolog. Fodd bynnag, cafwyd yr wybodaeth ganlynol o'r pum awdurdod iechyd am yr amseroedd aros perthnasol yn eu hardaloedd.

Awudurdod Iechyd Morgannwg

Ar gyfartaledd, mae amser aros o dri mis i gael mynediad i'r gwelyau yn Ysbyty Cefn Coed, Abertawe (sy'n gwasanaethu poblogaeth Bwrdeistref Sirol Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot). Gan nad oes unrhyw welyau penodedig ar gyfer Sir Pen-y-bont ar Ogwr a Dyffryn Morgannwg nid yw'n bosibl darparu gwybodaeth fanwl ynglŷn ag amseroedd aros yn yr ardaloedd hynny.

Awurdod Iechyd Gwent

Nid oes rhestrau aros ar gyfer y gwelyau ac mae'r defnydd ohonynt wedi'i gynllunio a'i raglennu.

Awdurdod Iechyd Dyfed Powys

Mae gan Ysbyty Shelton yn Amwythig amser aros cyfredol o ddwy i dair wythnos.

Bro Taf

Yn ne Bro Taf mae'r amser aros, ar gyfartaledd, ar gyfer cael mynediad i Ysbyty'r Eglwys Newydd yn chwech i wyth wythnos.

Yng ngogledd Bro Taf mae'r amser aros rhwng ymgynghori ac asesu tua phedwar diwrnod, a'r amser rhwng ymgynghori a chael mynediad tua wyth diwrnod. Nod yr awdurdod iechyd yw gweithredu pan fo'r cleient yn fwyaf awyddus.

Awurdod Iechyd Gogledd Cymru

Mae amseroedd aros, gydag un eithriad, yn amrywio rhwng rhai diwrnodau a dau fis. Rhoddir blaenoraieth i bobl ifanc o dan 16 oed a menywod sy'n feichio. Yr eithriad yw Hafan Wen, Wrecsam, sydd ag amser aros hwyaf o bum mis ar gyfer ei wasanaethau dadwenwyno alcohol.

NHS Capital Projects

David Melding: What NHS capital projects have been i) cancelled ii) postponed iii) reduced in size since May 1997 in Wales, and to what value? (WAQ726VB)

Jane Hutt: No NHS capital projects approved for funding have been cancelled, postponed or reduced in size since May 1997.

Prosiectau Cyfalaf yr NHS

David Melding: Pa brosiectau cyfalaf yr NHS sydd wedi'u i) canslo ii) gohirio iii) cwtogi ers mis Mai 1997 yng Nghymru, a beth oedd eu gwerth? (WAQ726VB)

Jane Hutt: Nid oes unrhyw un o brosiectau cyfalaf yr NHS a gymeradwywyd ar gyfer nawdd wedi'u canslo, eu gohirio na'u cwtogi ers mis Mai 1997.

Medical Teaching Facilities in Wales

Peter Black: Will Jane Hutt make a statement on the capacity of existing medical teaching facilities in Wales to accommodate additional clinical medical students? (WAQ787VB)

Jane Hutt: If further consideration leads to the conclusion that another increase in student numbers is necessary, we shall consider how it should be accommodated taking into account the teaching facilities, staff and money available.

The Wales advisory group that considered this issue last year recommended an eventual increase of between 50 and 100 students per year in Wales—between 15 and 65 in addition to the 35 recently announced by the First Secretary—and offered the view that this level of increase could, if required, be delivered without creating a second medical school.

Cyfleusterau Addysg Feddygol Cymru

Peter Black: A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ar allu cyfleusterau addysg feddygol cyfredol Cymru i ddelio â myfyrwyr meddygaeth glinigol ychwanegol? (WAQ787VB)

Jane Hutt: Os deuir i'r casgliad, ar ôl ystyried ymhellach, fod angen cynnydd arall yn nifer y myfyrwyr, byddwn yn ystyried sut y gellir cyflawni hynny o ystyried y cyfleusterau dysgu, y staff a'r arian sydd ar gael.

Argymhellodd grŵp ymgynghorol Cymru a ystyriodd y mater hwn y llynedd gynnydd maes o law o rhwng 50 a 100 o fyfyrwyr y flwyddyn yng Nghymru—rhwng 15 a 65 yn ychwanegol at y 35 a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Prif Ysgrifennydd—a chynigiodd y farn y gellid gwireddu cynnydd ar y lefel hon, pe bai'n ofynnol, heb greu ail ysgol feddygol.

Vacant Health Consultant Posts

Peter Black: How many vacant health consultant posts are there are in Wales? (WAQ751VB)

Jane Hutt: The most recent information held centrally is from the returns sent to the former Welsh Office by NHS Trusts as part of the annual medical and dental staff census. It shows that there were 23 vacant consultant posts at 30 September 1998.

Swyddi Gwag ar gyfer Ymgyngorwyr Iechyd

Peter Black: Sawl swydd wag ar gyfer ymgyngorwyr iechyd sydd i'w cael yng Nghymru? (WAQ751VB)

Jane Hutt: Daw'r wybodaeth fwyaf ddiweddar a gedwir yn ganolog o'r datganiadau a gâi eu hanfon at y Swyddfa Gymreig, fel yr oedd, gan Ymddiriedolaethau NHS fel rhan o'r cyfrifiad blynnyddol o staff meddygol a deintyddol. Mae'n dangos bod 23 o swyddi ymgyngorol yn wag ar 30 Medi 1998.

Second Medical School for Wales

David Lloyd: Will Jane Hutt make a statement regarding the increasing need for a second medical school for Wales? (WAQ752VB)

Jane Hutt: We shall be looking at whether there should be a further increase in medical student numbers in Wales in addition to that which the First Secretary announced on 22 June. We shall also look at how any necessary increase could be accommodated most cost-effectively. The Wales advisory group that looked at this matter last year recommended an eventual increase of between 50 and 100 students per year in Wales. That is between 15 and 65, in addition to the 35 recently announced by the First Secretary and it offered the view that this level of increase could, if required, be delivered without creating a second medical school.

Ail Ysgol Feddygol yng Nghymru

David Lloyd: A wnaiff Jane Hutt ddatganiad ynghylch yr angen cynyddol am ail ysgol feddygol yng Nghymru? (WAQ752VB)

Jane Hutt: Byddwn yn ystyried a ddylid cynyddu nifer y myfyrwyr meddygol yng Nghymru ymhellach, yn ychwanegol at y cynnydd a gyhoeddwyd gan y Prif Ysgrifennydd ar 22 Mehefin. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir gwireddu unrhyw gynnydd angenrheidiol yn fwyaf cost effeithiol. Argymhellodd grŵp ymgyngorol Cymru, a edrychodd ar y mater hwn y llynedd, gynnydd maes o law o rhwng 50 a 100 o fyfyrwyr y flwyddyn yng Nghymru. Hynny yw, rhwng 15 a 65 yn ychwanegol at y 35 a gyhoeddwyd yn ddiweddar gan y Prif Ysgrifennydd, a chynigiodd y farn y gellid gwireddu cynnydd ar y lefel hon, pe bai'n ofynnol, heb greu ail ysgol feddygol.

Minor Injury Unit (Cardiff Royal Infirmary)

Jenny Randerson: Are there are any plans for a minor injury unit at the CRI and if so what is the timescale for this development? If not, what are the plans for the CRI site and for

providing additional minor injury care locally in order to take pressure off the accident and emergency unit at the University Hospital of Wales? (WAQ749JS)

Jane Hutt: The provision of a minor injury service at the Cardiff Royal Infirmary site is a matter for Bro Taf health authority. In January 1996, the Secretary of State gave approval in principle to the former South Glamorgan health authority's plans for the CRI site, which included a minor injury service. That approval expired in January this year. In view of this, and in the context of a wider strategy for the provision of services in Cardiff, the health authority and Cardiff Local Health Group are currently assessing proposals for the CRI and the need to re-consult. The authority is expected to reach its conclusions before the end of the year.

Uned Mân-Anafiadau (Ysbyty Brenhinol Caerdydd)

Jenny Randerson: A oes unrhyw gynlluniau ar gyfer uned mân-anafiadau yn Ysbyty Brenhinol Caerdydd ac, os felly, beth yw'r amserlen ar gyfer y datblygiad hwn? Os nad oes, pa gynlluniau sydd ar y gweill ar gyfer safle'r Ysbyty Brenhinol ac ar gyfer darparu gofal ychwanegol ar gyfer mân-anafiadau yn lleol, er mwyn ysgwyddo rhan o faich yr uned damweiniau ac argyfwng yn Ysbyty Athrofaol Cymru? (WAQ749JS)

Jane Hutt: Mater i awdurdod iechyd Bro Taf yw darparu gwasanaeth mân anafiadau ar safle Ysbyty Brenhinol Caerdydd. Ym mis Ionawr 1996, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol gymeradwyaeth mewn egwyddor i gynlluniau awdurdod iechyd blaenorol De Morgannwg ar gyfer safle'r Ysbyty Brenhinol, cynlluniau oedd yn cynnwys gwasanaeth mân anafiadau. Daeth y gymeradwyaeth honno i ben ym mis Ionawr eleni. Yn wyneb hynny, ac yng nghydestun strategaeth ehangach i ddarparu gwasanaethau yng Nghaerdydd, mae'r awdurdod iechyd a Grŵp Iechyd Lleol Caerdydd ar hyn o bryd yn asesu cynigion ar gyfer yr Ysbyty Brenhinol a'r angen i ailymgynghori. Disgwylir i'r awdurdod lunio'i gasgliadau cyn diwedd y flwyddyn.

Medical Students

Alun Cairns: What plans has Jane Hutt to increase the number of medical students in Wales up to and beyond 2005, from which budget will they be funded, and in what proportions? (WAQ768VB)

Jane Hutt: On 22 June, the First Secretary announced an increase of 35 in the College of Medicine's annual intake of first-year medical students. In the next comprehensive spending review, we shall consider whether there should be a further increase in medical student numbers looking at the medical workforce requirements and available resources.

Costs of undergraduate tuition are supported through the Higher Education Funding Council for Wales, whilst service costs incurred by the NHS in connection with undergraduate teaching are addressed through service increment for training.

Myfyrwyr Meddygol

Alun Cairns: Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i sicrhau mwy o fyfyrwyr meddygol yng Nghymru hyd at 2005 a thu hwnt, o ba gyllideb y caiff y cynlluniau hynny eu hariannu, a beth fydd y cyfrannau? (WAQ768VB)

Jane Hutt: Ar 22 Mehefin, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd gynnydd o 35 yn nifer y myfyrwyr meddygol blwyddyn gyntaf y mae'r Coleg Meddygaeth yn eu derbyn bob blwyddyn. Yn yr arolwg cynhwysfawr nesaf o wariant, byddwn yn ystyried a ddylid cynyddu

nifer y myfyrwyr meddygol ymhellach, o ystyried gofynion y gweithlu meddygol a'r adnoddau sydd ar gael.

Mae costau hyfforddi graddedigion yn cael eu noddi drwy Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru, tra telir y costau gwasanaeth a wynebir gan yr NHS o ran dysgu israddelegion drwy hicyn gwasanaeth ar gyfer hyfforddi.

Medical Training

Alun Cairns: Which hospitals are predominantly used for medical training purposes in Wales? Please list the statistics hospital by hospital. (WAQ769VB)

Jane Hutt: The hospitals in which medical undergraduates undertake clinical placements, and the most recent estimates of clinical placements (measured in weighted student weeks per year) are as follows:

Hospital	Weighted Student Weeks 1998-99
UHW/CRI	4296
Rookwood	178
Llandough	2080
Barry	4
Sully	199
Whitchurch	532
Lansdowne	7
Velindre	2
Prince Charles	616
St Tydfils	53
East Glamorgan	1119
Royal Gwent	1376
Caerphilly Miners	157
Nevill Hall	294
Maindiff Court	36
St Cadocs	43
Princess of Wales	880
Neath	71
Cefn Coed	57
Singleton	863
Morriston	677
West Wales	184
Prince Philip	153
Withybush	120
St Davids	50
Bronglais	130
Talgarth	45
Wrexham Maelor	206
Glan Clwyd	198
Ysbyty Gwynedd	194

Hyfforddiant Meddygol

Alun Cairns: Pa ysbytai yng Nghymru sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyfforddiant yn bennaf? A fyddch cystal â rhestru'r ystadegau fesul ysbyty. (WAQ769VB)

Jane Hutt: Mae'r ysbytai lle mae is raddedigion meddygol yn gwneud eu lleoliadau clinigol, a'r amcangyfrif mwyaf diweddar o'r lleoliadau clinigol (a fesurir mewn wythnosau pwysedig myfyrwyr y flwyddyn) fel a ganlyn:

Ysbyty	Wythnosau Pwysedig Myfyrwyr 1998-99
Ysbyty Athrofaol/Ysbyty Brenhinol Caerdydd	4296
Rookwood	178
Llandochar	2080
Y Barri	4
Sili	199
Yr Eglwys Newydd	532
Lansdowne	7
Felindre	2
Tywysog Charles	616
Tudful Sant	53
Dwyrain Morgannwg	1119
Brenhinol Gwent	1376
Glowyr Caerffili	157
Nevill Hall	294
Maindiff Court	36
Cadog Sant	43
Tywysoges Cymru	880
Castell-nedd	71
Cefn Coed	57
Singleton	863
Treforys	677
Gorllewin Cymru	184
Tywysog Philip	153
Llwyn Helyg	120
Dewi Sant	50
Bronglais	130
Talgarth	45
Wrecsam Maelor	206
Glan Clwyd	198
Ysbyty Gwynedd	194

Private Finance Initiative Bids

Brian Gibbons: Will staff unions be able to discuss 'the final business case' with all partners in NHS PFI bids in Wales, before the agreements are actually signed? (WAQ753VB)

Jane Hutt: It is for each trust to decide on the level of participation of staff unions in the discussion of private finance initiative bids including the final business case. At a minimum, it is expected that documents that are in the public domain would be copied to staff unions for their information.

Ceisiadau o dan y Fenter Cyllid Preifat

Brian Gibbons: A fydd undebau'r staff yn cael trafod 'yr achos busnes terfynol' gyda phob partner sy'n gysylltiedig â cheisiadau o dan y fenter cyllid preifat yn yr NHS yng Nghymru, cyn i'r cytundebau gael eu llofnodi? (WAQ753VB)

Jane Hutt: Mater i bob ymddiriedolaeth yw penderfynu ar lefel cyfranogiad undebau'r staff wrth drafod ceisiadau o dan y fenter cyllid preifat, gan gynnwys yr achos busnes terfynol. Disgwyli'r, fel y gofyniad lleiaf, y byddai copiâu o ddogfennau sy'n agored i'r cyhoedd yn cael eu rhoi i undebau'r staff er gwybodaeth iddynt.

Baglan Hospital (Emergency Provisions)

Brian Gibbons: Will Jane Hutt give an assurance that the central sterilisation services departments provisions for the new Baglan Hospital will be sufficiently flexible to meet increased emergency demands? (WAQ754VB)

Jane Hutt: The new hospital at Baglan will be dealing primarily with elective surgical procedures and a significant increase in demand for the central sterilisation services department would, therefore, be planned for well in advance. The rigorous specification, on which the preferred bid from Baglan Moors Healthcare Group is based, includes objectives to achieve optimum standards for sterile services and to ensure continuity of hospital activity and patient management.

Ysbyty Baglan (Darpariaeth mewn Argyfwng)

Brian Gibbons: A all Jane Hutt roi sicrwydd y bydd y ddarpariaeth a wneir gan yr adran gwasanaethau diheintio canolog ar gyfer ysbyty newydd Baglan yn ddigon hyblyg i ymdopi â mwy o alw argyfwng? (WAQ754VB)

Jane Hutt: Bydd yr ysbyty newydd ym Maglan yn delio'n bennaf â thriniaethau llawfeddygol a drefnir ymlaen llaw a byddid, felly, yn cynllunio mewn da bryd ar gyfer unrhyw gynnydd yn y galw ar adran y gwasanaethau diheintio canolog. Mae'r fanyleb drylwyr, y seiliwyd y cais a ffafir gan Grŵp Gofal Iechyd Baglan Moors arni, yn cynnwys amcanion sy'n dweud bod y gwasanaethau diheintio i gyrraedd y safonau gorau posibl a bod parhad o ran y gweithgarwch ysbyty a'r rheolaeth dros gleifion i gael ei sicrhau.

NHS Stocktake Report

David Melding: In the wake of the NHS stocktake report, does Jane Hutt have any plans to reduce the number of frontline staff in the NHS in Wales? (WAQ789VB)

Jane Hutt: The national health service stocktake report demonstrated the importance of all NHS bodies living within their means. Those NHS bodies that are in, or are forecasting deficits need to determine, in consultation with key stakeholders, the most appropriate means of restoring financial balance within available resources. In some cases, that may involve a

reduction in frontline NHS staff but that will be for the NHS bodies concerned to determine and I am sure they will seek to minimise the impact on staff and services.

Adroddiad Cloriannu'r Gwasanaeth Iechyd

David Melding: Yn sgil adroddiad cloriannu'r NHS, a oes gan Jane Hutt unrhyw gynlluniau i leihau nifer staff y rheng flaeñ yn yr NHS yng Nghymru? (WAQ789VB)

Jane Hutt: Dangosodd adroddiad cloriannu'r NHS pa mor bwysig yw hi fod pob corff NHS yn byw o fewn ei adnoddau. Rhaid i'r cyrff NHS hynny sydd â diffyg ariannol, neu sy'n darogan diffyg, benderfynu ar y ffordd fwyaf priodol o adfer cydbwysedd ariannol oddi mewn i'r adnoddau sydd ar gael, a hynny mewn ymgynghoriad â'r buddianwyr allweddol. Mewn rhai achosion, gallai hynny olygu leihau nifer y staff NHS rheng flaeñ ond mater i'r cyrff NHS dan sylw i benderfynu arno yw hynny ac yr wyf yn siwr y byddant yn ceisio lleihau'r effaith ar staff a gwasanaethau.

Anti-Smoking Strategy

David Melding: What are Jane Hutt's plans to outline a comprehensive anti-smoking strategy for schools in Wales? (WAQ790VB)

Jane Hutt: There have been a number of initiatives in recent years to address the issue of smoking in schools. Following a review of effectiveness of action in this area, Gwynedd and Swansea have piloted a co-ordinated strategy. That includes setting up school smoke-free policies, teaching about the social issues around smoking, enforcing existing legislation to reduce sales to under-16s and implementing other initiatives targeted at young people.

Schools are also encouraged to tackle smoking as part of a comprehensive health promoting school approach. In this way schools take an holistic view of health, and work to support classroom teaching with work in the wider school environment. Plans are in hand to extend this approach to more schools in Wales.

Recently I gave support to the third year of an EU initiative: the smoke-free class competition. It aims to encourage young people to remain smoke-free. This year, 13,000 young people in Wales aged 11-13 were involved with European participation of 160,000.

I shall shortly be announcing a range of measures to reduce smoking as part of the implementation of the Tobacco White Paper, 'Smoking Kills', in Wales. These measures will include action in the school setting, as well as work in the wider community.

Ref: Stead, M, Hastings, G. *Developing Options for a Programme on Adolescent Smoking in Wales*. Health Promotion Wales Technical Report No 16. 1995.

Strategaeth Gwrth-ysmygu

David Melding: Pa gynlluniau sydd gan Jane Hutt i amlinellu strategaeth gwrth-ysmygu gynhwysfawr ar gyfer ysgolion Cymru? (WAQ790VB)

Jane Hutt: Cafwyd nifer o gynlluniau dros y blynnyddoedd diwethaf i fynd i'r afael ag ysmgyu mewn ysgolion. Ar ôl adolygu pa mor effeithiol fu'r gweithredu yn y maes hwn, mae Gwynedd ac Abertawe wedi rhoi strategaeth cyd-drefnus ar brawf. Mae'n cynnwys sefydlu polisiau di-fwg mewn ysgolion, dysgu am yr ystyriaethau cymdeithasol sy'n berthnasol i ysmgyu, gorfodi'r ddeddfwriaeth bresennol fel bod llai o sigaréts yn cael eu gwerthu i rai dan 16 a rhoi cynlluniau eraill a dargedir at bobl ifanc ar waith.

Anogir ysgolion hefyd i fynd i'r afael ag ysmgyu fel rhan o batrwm hybu iechyd cynhwysfawr drwy'r ysgol gyfan. Yn y ffordd hon mae ysgolion yn ystyried iechyd mewn ffordd holistaidd, ac yn cefnogi'r gwaith yn yr ystafell ddosbarth gyda gwaith o fewn amgylchedd ehangach yr ysgol. Mae cynlluniau ar y gweill i ehangu'r patrwm gweithredu hwn i fwy o ysgolion yng Nghymru.

Yn ddiweddar rhoddais gefnogaeth i drydedd flwyddyn cynllun gan yr UE: y gystadleuaeth dosbarth di-fwg. Ei nod yw annog pobl ifanc i beidio â dechrau ysmgyu. Eleni, cymerwyd rhan gan 13,000 o bobl ifanc 11-13 oed yng Nghymru, gyda 160,000 yn cymryd rhan drwy Ewrop.

Cyn bo hir byddaf yn cyhoeddi ystod o fesurau i leihau ysmgyu fel rhan o roi'r Papur Gwyn ar Dybaco, 'Mae Ysmgyu yn Lladd', ar waith yng Nghymru. Bydd y mesurau hyn yn cynnwys gweithredu o fewn ysgolion, yn ogystal â gwaith yn y gymuned ehangach.

Cyf: Stead, M, Hartings, G. *Developing Options for a Programme on Adolescent Smoking in Wales*. Adroddiad Technegol Rhif 16 Hybu Iechyd Cymru, 1995.

Consultant Nurses

David Melding: What representations has Jane Hutt received regarding a new grade of 'consultant nurse' for the NHS in Wales, and in what timescale does she intend to pursue its implementation? (WAQ793 VB)

Jane Hutt: I have not received any representations about the new grade of 'consultant nurse' for the NHS in Wales. I am aware of discussions at present across the UK health departments about final agreement on the criteria that will be used to determine such posts and the salary bandings which will be applied. The Health and Social Services Committee will be giving further consideration to the process in Wales during the autumn.

Nyrsys Ymgynghorol

David Melding: Pa sylwadau y mae Jane Hutt wedi'u derbyn ynglŷn â graddfa newydd y 'nyrs ymgynghorol' ar gyfer yr NHS yng Nghymru, ac yn unol â pha amserlen y mae'n bwriadu mynd ati i'w rhoi ar waith? (WAQ793VB)

Jane Hutt: Nid wyf wedi derbyn unrhyw sylwadau am y raddfa newydd i 'nyrsys ymgynghorol' yn yr NHS yng Nghymru. Yr wyf yn ymwybodol o'r trafodaethau ar draws adrannau iechyd y DU ar hyn o bryd ynglŷn â chytuno'n derfynol ar y mein prawf sydd i'w defnyddio i bennu swyddi o'r fath a'r bandiau cyflog a fydd yn berthnasol iddynt. Bydd y Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ystyried y broses yng Nghymru ymhellach yn ystod yr hydref.

Children in Care

Brian Gibbons: What personal financial provision is made for children in care in Wales between the ages 16-18 years and what personal financial provision is available should they choose to leave care arrangements? (WAQ760VB)

Jane Hutt: Currently, local authority social services departments support 16 and 17 year olds in care. Some special groups, such as young lone parents and young people with disabilities, are also eligible for benefits. Those who have left care receive support from a mixture of local

authority after-care support services and benefits. A consultation paper on new arrangements for young people living in and leaving care was issued on 21 July. A copy is available in the Assembly Library.

Plant mewn Gofal

Brian Gibbons: Pa ddarpariaeth ariannol bersonol a wneir ar gyfer plant rhwng 16 a 18 oed sydd mewn gofal yng Nghymru, a pha ddarpariaeth ariannol bersonol sydd ar gael os ydynt yn dewis ymadael â threfniadau gofal? (WAQ760VB)

Jane Hutt: Ar hyn o bryd, adrannau gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdodau lleol sy'n cefnogi pobl ifanc 16 a 17 oed sydd mewn gofal. Mae rhai grwpiau arbennig, megis rhieni unigol ifanc a phobl ifanc ag anableddau, hefyd yn gymwys i gael budd-daliadau. Mae'r rheini sydd wedi gadael gofal yn cael cefnogaeth drwy gymysgedd o wasanaethau cefnogi ar-ol-gofal yr awdurdodau lleol a budd-daliadau. Cyhoeddwyd papur ymgynghorol ar drefniadau newydd i bobl ifanc sy'n byw i mewn ac yn gadael gofal ar 21 Gorffennaf. Mae copi ar gael yn Llyfrgell y Cynulliad.

NHS Capital Programme

David Melding: What is the value of the NHS capital programme in Wales as of May 1997 (at 1999 prices) and at present, also at 1999 prices? (WAQ727VB)

Jane Hutt: Net provision for the all-Wales capital programme, at 1999-2000 prices, in 1997-1998 was £62.4 million and at present is £34.7 million. The stocktake report ordered by the First Secretary (then the Secretary of State) in January, revealed that the level of loans and brokerage being carried by health authorities and NHS trusts in Wales made it impossible to make significant capital allocations without serious revenue cuts, despite a generous rise in financial support for the NHS Wales.

Note: These figures represent net provision (i.e. excluding receipts) for major schemes. They exclude provision for trust discretionary expenditure on capital, funds carried forward from earlier years because of slippage and, in the current year, the new capital modernisation fund. Conversion of 1997-1998 prices according to HM Treasury GDP deflators issued in July 1999.

Rhaglen Gyfalaf y Gwasanaeth Iechyd

David Melding: Beth oedd gwerth rhaglen gyfalaf yr NHS yng Nghymru ym mis Mai 1997 (ym mhrisiau 1999) ac ar hyn o bryd, hefyd ym mhrisiau 1999? (WAQ727VB)

Jane Hutt: Yr oedd y ddarpariaeth net ar gyfer rhaglen gyfalaf Cymru gyfan, ym mhrisiau 1997-1998, yn £62.4 miliwn ac ar hyn o bryd mae'n £34.7 miliwn. Dangosodd yr adroddiad cloriannu y gofynnwyd amdani gan y Prif Ysgrifennydd (yr Ysgrifennydd Gwladol yr adeg honno) ym mis Ionawr, fod lefelau'r benthyciadau a'r brocerdaliadau a ysgwyddid gan awdurdodau iechyd ac ymddiriedolaethau NHS yng Nghymru yn ei gwneud yn amhosibl dyrannu cyfalaf sylweddol heb wneud toriadau difrifol mewn refeniw, er gwaethaf codiad hael yn y gefnogaeth ariannol i'r gwasanaeth iechyd yng Nghymru.

Nodyn: Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli'r ddarpariaeth net (h.y. heb gynnwys derbyniadau) ar gyfer cynlluniau mawr. Nid ydynt yn cynnwys darpariaeth ar gyfer gwariant dewisol gan ymddiriedolaethau ar gyfalaf, cronfeydd a gariwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach oherwydd llithriant ac, yn y flwyddyn gyfredol, y gronfa foderneiddio cyfalaf newydd. Troswyd prisiau 1997-1998 yn unol â datchwyddwyr cynyrrch mewnwladol crynswth y Trysorlys a gyhoeddwyd yng Ngorffennaf 1999.

Carer's Attendance Allowance

Jenny Randerson: How many applications for the carer's attendance allowance from people living in Wales were made during the financial years 1996-97, 1997-98 and 1998-99? How many of these applications were granted? How many applications were refused? How many applications were granted on 'review'? How many applications were granted on 'appeal' and how many applications were granted for a period of one year? (WAQ746VB)

Jane Hutt: This matter is not devolved to the National Assembly. The responsibility for carer's attendance allowance rests with the Secretary of State for Social Security.

Lwfans Gweini i Gynhalwyr

Jenny Randerson: Sawl cais a wnaed gan bobl sy'n byw yng Nghymru am lwfans gweini i gynhalwyr yn ystod blynnyddoedd ariannol 1996-97, 1997-98 a 1998-99? Faint o'r ceisiadau hyn oedd yn llwyddiannus? Faint a wrthodwyd? Faint oedd yn llwyddiannus ar 'adolygiad'? Faint o geisiadau oedd yn llwyddiannus ar 'apêl' a faint o geisiadau oedd yn llwyddiannus am gyfnod o flwyddyn? (WAQ746VB)

Jane Hutt: Nid yw'r mater hwn wedi ei ddatganoli i'r Cynulliad Cenedlaethol. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Nawdd Cymdeithasol sy'n gyfrifol am y lwfans gweini i gynhalwyr.

NHS Waiting List

Alun Cairns: What are the NHS waiting list statistics at the most local level available for each hospital and trust within the south Wales west region, in terms of waiting times and the number for both inpatient and outpatient treatment. What were the same figures before 1 May 1997? (WAQ705JS)

Jane Hutt: The latest available NHS waiting lists data for the four former NHS trusts in the south Wales west region are given in the following tables. Data at a hospital level is not available centrally.

These tables show the total numbers who were waiting at 31 March 1997 and 31 March 1999, together with the numbers waiting over certain specified time periods, for each of the four trusts.

Waiting lists at 31 March 1997 and 31 March 1999: NHS trusts in South Wales West

Patients waiting for inpatient or day case admission

NHS trust	All inpatients and day cases waiting		Inpatients and day cases waiting over 12 months		Inpatients and day cases waiting over 18 months	
	1997	1999	1997	1999	1997	1999
Bridgend and District	2,881	2,481	0	0	0	0
Glan-y-Môr	1,492	1,832	5	10	0	0
Morriston Hospital	5,081	4,855	811	880	289	258
Swansea	2,056	1,685	0	2	0	0
South Wales west sub-total	11,510	10,853	816	892	289	258

<i>All Welsh trusts</i>	65,032	61,778	6,282	7,194	1,405	2,214
-------------------------	---------------	---------------	--------------	--------------	--------------	--------------

Patients waiting for first outpatient consultation

NHS trust	All outpatients waiting		Outpatients waiting over 3 months		Outpatients waiting over 6 months	
	1997	1999	1997	1999	1997	1999
Bridgend and District	5,420	5,271	998	1,371	74	321
Glan-y-Môr	4,553	5,058	810	1,470	28	376
Morriston Hospital	3,883	5,972	2,225	4,068	1,001	2,459
Swansea	5,824	6,106	1,827	1,663	416	38
South Wales west sub-total	19,680	22,407	5,860	8,572	1,519	3,194
<i>All Welsh trusts</i>	101,685	133,127	28,615	53,037	6,147	21,520

Rhestrau Aros y Gwasanaeth Iechyd

Alun Cairns: Beth yw ystadegau rhestrau aros yr NHS ar y lefel fwyaf lleol sydd ar gael i bob ysbty ac ymddiriedolaeth yn rhanbarth gorllewin de Cymru o ran amseroedd aros a nifer y triniaethau i gleifion yn yr ysbty a chleifion dydd; a beth oedd y ffigurau hynny cyn 1 Mai 1997? (WAQ705JS)

Jane Hutt: Rhoddir y data diweddaraf am restrau aros yr NHS yn y pedair ymddiriedolaeth NHS flaenorol yn rhanbarth gorllewin de Cymru yn y tablau isod. Nid oes data ar lefel ysbtyai ar gael yn ganolog.

Dengys y tablau hyn gyfansymiau'r niferoedd oedd yn disgwyl ar 31 Mawrth 1997 a 31 Mawrth 1999, ynghyd â'r niferoedd oedd yn disgwyl dros rai cyfnodau amser penodol, i bob un o'r pedair ymddiriedolaethau.

Rhestrau aros ar 31 Mawrth 1997 a 31 Mawrth 1999: Ymddiriedolaethau NHS yng Ngorllewin De Cymru

Cleifion yn aros i'w derbyn fel cleifion preswyl neu achosion dydd

Ymddiriedolaeth NHS	Pob claf preswyl ac achos dydd yn aros		Cleifion preswyl ac achosion dydd yn aros dros 12 mis		Cleifion preswyl ac achosion dydd yn aros dros 18 mis	
	1997	1999	1997	1999	1997	1999
Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch	2,881	2,481	0	0	0	0
Glan-y-Môr	1,492	1,832	5	10	0	0
Ysbyty Treforys	5,081	4,855	811	880	289	258
Abertawe	2,056	1,685	0	2	0	0
Is-gyfanswm gorllewin de Cymru	11,510	10,853	816	892	289	258
<i>Holl Ymddiriedolaethau Cymru</i>	65,032	61,778	6,282	7,194	1,405	2,214

Cleifion yn aros am ymgynghoriad cyntaffel cleifion allanol

Ymddiriedolaeth NHS	Pob claf allanol yn aros		Cleifion allanol yn aros dros 3 mis		Cleifion allanol yn aros dros 6 mis	
	1997	1999	1997	1999	1997	1999
Pen-y-bont ar Ogwr a'r Cylch	5,420	5,271	998	1,371	74	321

Glan-y-Môr	4,553	5,058	810	1,470	28	376
Ysbyty Treforys	3,883	5,972	2,225	4,068	1,001	2,459
Abertawe	5,824	6,106	1,827	1,663	416	38
<i>Is-gyfanswm gorllewin de Cymru</i>	<i>19,680</i>	<i>22,407</i>	<i>5,860</i>	<i>8,572</i>	<i>1,519</i>	<i>3,194</i>
<i>Holl Ymddiriedolaethau Cymru</i>	<i>101,685</i>	<i>133,127</i>	<i>28,615</i>	<i>53,037</i>	<i>6,147</i>	<i>21,520</i>

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Datblygu Economaidd Questions to the Secretary for Economic Development

International Rectifiers

Alun Cairns: What are the capital expenditure and job creation targets for each instalment of financial support for International Rectifiers from the public purse? To enable International Rectifiers to receive Government grants, what qualification criteria have been set in order that each portion of the grants be paid, and what are the capital expenditure and job creation targets for each portion of financial support from the public purse? (WAQ702JS, WAQ703JS)

The Secretary for Economic Development (Rhodri Morgan): The specific details of instalments of regional selective assistance grants offered to companies are regarded as commercially confidential and it is not, therefore, appropriate to disclose the information requested.

International Rectifiers

Alun Cairns: Beth yw'r gwariant cyfalaf a'r targedau creu swyddi ar gyfer pob rhandaliad o'r gefnogaeth ariannol ar gyfer International Rectifiers o'r pwrs cyhoeddus? Er mwyn i International Rectifiers dderbyn grantiau gan y Llywodraeth, pa feini prawf cymhwysy sydd wedi'u gosod er mwyn i bob cyfran o'r grant gael ei dalu, a beth yw'r gwariant cyfalaf a'r targedau creu swyddi ar gyfer pob cyfran o'r gefnogaeth ariannol o'r pwrs cyhoeddus? (WAQ702JS, WAQ703JS)

Yr Ysgrifennydd Datblygu Economaidd (Rhodri Morgan): Ystyrrir y manylion am randaliadau grantiau cymorth dewisol rhanbarthol a gynigir i gwmnïau yn fanylion masnachol gyfrinachol. Nid yw'n addas felly i ddatgelu'r wybodaeth a geisiwyd.

Objective 3

William Graham: Will Rhodri Morgan make a statement on the impact on Wales of the introduction of Objective 3 status and whether any alternative incentives are planned? (WAQ 657VB)

Rhodri Morgan: Objective 3 status is awarded to all parts of the European Union not eligible for Objective 1 funding, including the seven counties of East Wales not receiving Objective 1. Objective 3 links the previous Objective 3 and 4 programmes which Wales has benefited from since 1997 and will provide funding for a range of human resource development activities. These funds are designed to complement and add to a wide range of domestic initiatives from New Deal to modern apprenticeships.

Amcan 3

William Graham: A wnaiff Rhodri Morgan ddatganiad am effaith cyflwyno statws Amcan 3 ar Gymru ac a oes ganddo gymhellion eraill ar y gweill? (WAQ657VB)

Rhodri Morgan: Cyflwynir statws Amcan 3 i'r holl rannau o'r Undeb Ewropeaidd nad ydynt yn gymwys i dderbyn arian Amcan 1, gan gynnwys y saith sir yn nwyrain Cymru nad ydynt yn derbyn Amcan 1. Mae Amcan 3 yn cysylltu rhaglenni blaenorol Amcan 3 a 4 y manteisiodd Cymru arnynt ers 1997 ac a fydd yn darparu arian ar gyfer rhychwant o weithgareddau datblygu adnoddau dynol. Cynlluniwyd i'r arian yma gyflenwi ac ychwanegu at sawl menter wladol o'r Fargen Newydd i brentisiaethau modern.

The Welsh Context Company

William Graham: What contacts has Rhodri Morgan had with the PR company Welsh Context? (WAQ673VB)

Rhodri Morgan: I refer Mr Graham to the answer given by the First Secretary in response to question WAQ667VB.

Cwmni Welsh Context

William Graham: Pa gysylltiadau y mae Rhodri Morgan wedi'u cael â'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus Welsh Context? (WAQ673VB)

Rhodri Morgan: Cyfeiriaf Mr Graham at yr ateb a roddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i gwestiwn WAQ667VB.

Closure of Lucas SEI

Nick Bourne: Has any progress been made in attracting new jobs to Ystradgynlais following the closure of Lucas SEI this year? (WAQ694JS)

Rhodri Morgan: Concerted efforts continue to be made to find an alternative user for the Lucas site. While interest has been shown in the site by a range of business users, it is regrettably not yet possible to announce a successful conclusion. The same applies to other industrial sites in and around the Ystradgynlais area.

Cau Lucas SEI

Nick Bourne: A oes unrhyw gynnydd wedi ei wneud wrth ddenu swyddi newydd i Ystradgynlais yn dilyn cau Lucas SEI eleni? (WAQ694JS)

Rhodri Morgan: Mae ymdrechion ar y cyd yn parhau er mwyn canfod defnyddiwr arall ar gyfer hen safle Lucas. Er bod amryw o ddefnyddwyr busnes wedi dangos diddordeb yn y safle, nid yw'n bosibl cyhoeddi casgliad llwyddiannus eto. Mae'r un peth yn wir ynglŷn â safleoedd diwydiannol eraill yn Ystradgynlais a'r ardal gyfagos.

Small and Medium-sized Enterprises (Financial Support)

Ron Davies: i) What plans has Rhodri Morgan to introduce proposals to support small and medium enterprise finance in Wales similar to the proposals for regional venture capital funds in England announced by the Prime Minister on 6 July and ii) What additional resources are being made available to Wales to introduce such schemes? (WAQ748JS)

Rhodri Morgan: i) On 31 March, the Government announced that three new investment schemes would be established to assist small firms in Wales. The new schemes will provide over £10 million venture capital for small and medium-sized enterprises. The funding will be available later this year. The three schemes are:

- a £2.142 million Welsh Development Agency small loans fund;
- a £2 million British Steel Industry equity and loans package; and
- a joint Welsh Development Agency/National Westminster Bank venture capital fund of £6 million providing support for innovative developments focusing on new technology.

The budget for support for the home-grown business sector has been increased to £13 million from £11 million in the present financial year. This is expected to help some 10,000 small firms in the coming year—a sixth of all firms in Wales—including 1,000 new quality business start-ups.

In addition, the First Secretary announced on 30 June that we would be reviewing our business support system during the summer and consulting with business, as the customers for these services, and with other partners. This will include access to capital, and risk capital in particular and will include the concept of the development bank for small and medium sized enterprises.

ii) 70,000 will be available in 2000-2001 from the UK venture capital fund to supplement the support being provided from Assembly resources.

Busnesau Bach a Chanolig eu Maint (Cefnogaeth Ariannol)

Ron Davies: i) Pa gynlluniau sydd gan Rhodri Morgan i gyflwyno cynigion i roi cymorth ariannol i fusnesau bach a chanolig yng Nghymru sy'n debyg i'r cynigion ar gyfer cronfeydd cyfalaf mentrau rhanbarthol yn Lloegr a gyhoeddwyd gan y Prif Weinidog ar 6 Gorffennaf, a ii) Pa adnoddau ychwanegol a fydd ar gael i Gymru er mwyn cyflwyno cynlluniau o'r fath? (WAQ748JS)

Rhodri Morgan: i) Ar 31 Mawrth, cyhoeddodd y Llywodraeth y byddai tri chynllun buddsoddi newydd yn cael eu sefydlu i helpu cwmnïau bach yng Nghymru. Bydd y cynlluniau newydd yn darparu dros £10 miliwn o gyfalaf menter ar gyfer busnesau bach a chanolig eu maint. Bydd y cyllid ar gael yn ddiweddarach eleni. Dyma'r tri chynllun:

- cronfa benthyciadau bach Awdurdod Datblygu Cymru, gwerth £2.142 miliwn;
- pecyn ecwiti a benthyciadau Diwydiant Dur Prydain, gwerth £2 filiwn; a
- chyd gronfa cyfalaf menter gwerth £6 miliwn Awdurdod Datblygu Cymru/Banc National Westminster sy'n cefnogi datblygiadau arloesol yn canolbwytio ar dechnoleg newydd.

Mae'r gyllideb i gefnogi'r sector busnes brodorol wedi cynyddu i £13 miliwn o £11 miliwn yn y flwyddyn ariannol bresennol. Disgwylir i hyn helpu tua 10,000 o gwmmïau bach dros y flwyddyn i ddod—un rhan o chwech o'r holl gwmmïau yng Nghymru—gan gynnwys 1,000 o fusnesau newydd o safon a fydd yn ymsefydlu.

Yn ogystal, cyhoeddodd y Prif Ysgrifennydd ar 30 Mehefin y byddem yn adolygu ein system cefnogi busnes yn ystod yr haf gan ymgynghori â busnesau, fel y cwsmeriaid sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn, ac â phartneriaid eraill. Bydd hyn yn cynnwys cael gafael ar gyfalaf, a chyfalaf risg yn enwedig, a bydd yn cynnwys y cysniad o fanc datblygu ar gyfer cwmnïau bach a chanolig eu maint.

ii) Bydd £270,000 ar gael yn 2000-2001 o gronfa cyfalaf menter y DU yn ychwanegol at y gefnogaeth a ddarperir o adnoddau'r Cynulliad.

Climate Change Levy

Alun Cairns: What estimate has Rhodri Morgan made of the financial implications that the climate change levy will have on manufacturers in Wales and how will this compare with the rest of the UK? On what basis was the estimate drawn? (WAQ780VB)

Rhodri Morgan: While the climate change levy is a matter for the Chancellor of the Exchequer, Assembly officials are in the process of assessing its implications for Welsh industry.

Treth Newid Hinsawdd

Alun Cairns: A yw Rhodri Morgan wedi amcangyfrif goblygiadau ariannol y dreth newid hinsawdd i gynhyrchwyr yng Nghymru, a sut y bydd hyn yn cymharu â gweddill y DU? Ar ba sail y lluniwyd yr amcangyfrifon hyn? (WAQ780VB)

Rhodri Morgan: Er mai mater i Ganghellor y Trysorlys yw'r dreth newid hinsawdd, mae swyddogion y Cynulliad yn y broses o asesu ei goblygiadau i ddiwydiant yng Nghymru.

Climate Change Levy

Alun Cairns: Is it estimated that the climate change levy will be tax neutral in Wales and will Rhodri Morgan make a statement? (WAQ784VB)

Rhodri Morgan: The Treasury has predicted that the levy will be tax neutral for business as a whole. The implications for intensive energy users in Wales have been raised with the UK Government, since such industries are significant employers in Wales.

Treth Newid Hinsawdd

Alun Cairns: A amcangyfrifir y bydd y dreth newid hinsawdd yn niwtral o ran treth yng Nghymru, ac a wnaiff Rhodri Morgan ddatganiad? (WAQ784VB)

Rhodri Morgan: Mae'r Trysorlys wedi darogan y bydd y dreth yn niwtral o ran treth i fusnesau trwyddyd draw. Mae'r goblygiadau i gyrrf sy'n defnyddio llawer iawn o ynni yng Nghymru yn fater sydd wedi ei godi gyda llywodraeth y DU, gan fod diwydiannau o'r fath yn gyflogwyr pwysig yng Nghymru.

Climate Change Levy

Alun Cairns: What assessment has Rhodri Morgan made of the increase in CO₂ emissions in Wales as a result of the imposition of the climate change levy on liquid petroleum gas and not on mineral oils? (WAQ799VB)

Rhodri Morgan: The climate change levy is a matter for the Chancellor of the Exchequer. It is expected to make a very significant contribution to meeting the UK's legally binding target for reducing greenhouse gas emissions under the Kyoto Protocol. Alongside the announcement on the climate change levy, the Chancellor also announced increases in existing mineral oils duties in his March Budget, in part to ensure that adverse fuel switching does not occur between different fuels. The exact impact of the levy on emissions will depend on the rates set, which will not be until the Finance Bill 2000.

Treth Newid Hinsawdd

Alun Cairns: Pa asesiad y mae Rhodri Morgan wedi'i wneud o'r cynnydd mewn gollyngiadau CO₂ yng Nghymru o ganlyniad i bennu treth newid hinsawdd ar nwy petrolewm hylifol, ond nid ar olew mwynol? (WAQ799VB)

Rhodri Morgan: Mater i Ganghellor y Trysorlys yw'r dreth newid hinsawdd. Disgwylir iddi gyfrannu'n sylweddol iawn tuag at gyflawni'r targed i leihau allyriannau nwy tŷ gwydr, targed sy'n rhwymo'r DU yn gyfreithiol dan Brotocol Kyoto. Ochr yn ochr â'r cyhoeddiad ar y dreth newid hinsawdd, cyhoeddodd y Canghellor hefyd godiadau yn y trethi cyfredol ar olew mwynol yn ei Gyllideb fis Mawrth, yn rhannol i sicrhau na cheir newid andwyol o un tanwydd a'r llall. Bydd union effaith y dreth ar allyriannau yn dibynnu ar y cyfraddau a bennir, ac ni wneir hynny tan Fesur Cyllid 2000.

Climate Change Levy

Alun Cairns: What assessment has Rhodri Morgan made of how many jobs will be lost as a result of the climate change levy in energy intensive industries in Wales, and how does this compare in proportion with the rest of the UK? (WAQ797VB)

Alun Cairns: What estimate has Rhodri Morgan made of the transfer of wealth from the private sector to the public sector as a result of the climate change levy? (WAQ800VB)

Alun Cairns: What estimate has Rhodri Morgan made of the transfer of wealth from the manufacturing sector to the service sector in Wales and how does this compare with that in England? (WAQ802VB)

Alun Cairns: What assessment has Rhodri Morgan made of the climate change levy's impact on the aluminium industry, steel industry and energy intensive farming industry in Wales? (WAQ801VB)

Rhodri Morgan: The climate change levy is a matter for the Chancellor of the Exchequer who has acknowledged the need for special consideration to be given to energy intensive industries in return for negotiated agreements for improved energy efficiency. The Department of Environment, Transport and the Regions is leading in these ongoing negotiations. No firm assessment of the direct costs or benefits to any one sector of industry could yet be made, because the rates of the levy have not been set. Wales has a relatively high concentration of energy intensive industries and I am therefore taking a close interest in the potential impact on their competitiveness.

Treth Newid Hinsawdd

Alun Cairns: Pa asesiad y mae Rhodri Morgan wedi'i wneud ynglŷn â nifer y swyddi a gollir o ganlyniad i'r dreth newid hinsawdd mewn diwydiannau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni yng Nghymru, a sut mae hynny'n cymharu â gweddill y DU? (WAQ797VB)

Alun Cairns: Pa amcangyfrif y mae Rhodri Morgan wedi'i wneud o'r trosglwyddiad cyfoeth o'r sector preifat i'r sector cyhoeddus o ganlyniad i'r dreth newid hinsawdd? (WAQ800VB)

Alun Cairns: Pa amcangyfrif y mae Rhodri Morgan wedi'i wneud o'r trosglwyddiad cyfoeth o'r sector gweithgynhyrchu i'r sector gwasanaethau yng Nghymru a sut mae hynny'n cymharu â Lloegr? (WAQ802VB)

Alun Cairns: Pa asesiad y mae Rhodri Morgan wedi'i wneud o effaith y dreth newid hinsawdd ar y diwydiant alwminiwm, y diwydiant dur a'r diwydiant ffermio sy'n defnyddio llawer iawn o ynni yng Nghymru? (WAQ801VB)

Rhodri Morgan: Mater i Ganghellor y Trysorlys yw'r dreth newid hinsawdd ac mae wedi cydnabod yr angen i roi ystyriaeth arbennig i ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni, yn gyfnewid am gytundebau i wella effeithiolrwydd ynni, y cytunir arnynt drwy drafodaeth. Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau sy'n arwain y trafodaethau hyn sy'n mynd rhagddynt ar hyn o bryd. Ni ellid gwneud asesiad pendant o'r costau na'r manteision uniongyrchol i unrhyw sector o ddiwydiant eto, gan nad yw cyfraddau'r dreth wedi eu pennu. Mae gan Gymru nifer cymharol uchel o ddiwydiannau sy'n defnyddio llawer iawn o ynni, ac yr wyf felly yn cymryd diddordeb manwl yn yr effaith bosibl ar eu natur gystadleuol.

Liquid Petroleum Gas Consumers and Suppliers

Alun Cairns: What assessment has Rhodri Morgan made of the additional costs to liquid petroleum gas (LPG) (a) consumers and (b) suppliers, where natural gas is not available? (WAQ798VB)

Rhodri Morgan: Energy is not a devolved matter, so no such assessment has been made.

Defnyddwyr a Chyflenwyr LPG

Alun Cairns: Pa asesiadau y mae Rhodri Morgan wedi'u gwneud o gostau ychwanegol i (a) defnyddwyr a (b) cyflenwyr nwy hylifol petrolewm lle nad oes nwy naturiol ar gael? (WAQ798VB)

Rhodri Morgan: Nid yw ynni yn fater sydd wedi ei ddatganoli, felly nid oes asesiad o'r fath wedi ei wneud.

Objective 1 Funds

Alun Cairns: How will Objective 1 monies be sectored in terms of the European regional development fund, the European social fund and the European agricultural guidance and guarantee fund and what limits will apply each year by year of the programme? (WAQ782VB)

Rhodri Morgan: The European task force is currently considering the distribution of available resources between the three funds and within the seven years of the programme. It will submit proposals in due course for the Assembly to consider prior to the single programming document being submitted to the European Commission by 1 November. This document will then need to be negotiated and agreed with the Commission. Our understanding is that the Commission has no preconceived views on this issue and will be prepared to consider any proposals we put forward constructively.

Cronfeydd Amcan 1

Alun Cairns: Sut y bydd arian Amcan 1 yn cael ei rannu o ran cronfa datblygu rhanbarthau Ewrop, cronfa gymdeithasol Ewrop a chronfa cyfarwyddo a gwarantu amaethyddol Ewrop, a pha derfynau a fydd yn cael eu gosod ym mhob blwyddyn o'r rhaglen? (WAQ782VB).

Rhodri Morgan: Mae'r tasglu Ewropeaidd wrthi ar hyn o bryd yn ystyried dosbarthiad yr adnoddau fydd ar gael rhwng y tair cronfa ac o fewn saith mlynedd y rhaglen. Bydd yn cyflwyno cynigion maes o law i'w hystyried gan y Cynulliad cyn i'r ddogfen rhaglen sengl gael ei chyflwyno i Gomisiwn Ewrop erbyn 1 Tachwedd. Bydd rhaid trafod y ddogfen hon wedyn a chytuno arni gyda'r Comisiwn. Ein dealltwriaeth ni yw nad oes gan y Comisiwn

unrhyw ragdybiaethau ynglŷn â hyn ac y bydd yn barod i ystyried unrhyw gynigion a gyflwynir gennym yn adeiladol.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig Questions to the Secretary for Agriculture and Rural Development

Selective Breeding

William Graham: What arrangements have been made to safeguard selective breeding to improve Welsh sheep meat following recent legislation from the European Union? (WAQ652VB)

The Secretary for Agriculture and Rural Development (Christine Gwyther): The National Assembly for Wales is currently supporting phase two of a project managed by the Meat and Livestock Commission, entitled the Welsh Sheep Strategy, through a rural development grant of £250,000.

Launched on 8 September 1997 and spread over five years, phase two aims to extend the advances in sheep breeding technology introduced in phase one through a hands on, on-farm programme of breed development, and by the establishment of research and development laboratories at a centre of excellence based at the Welsh Institute of Rural Studies at Aberystwyth. The project concentrates on the improvement of the quality of Welsh lamb to ensure its competitiveness for the future and the improvement in the health status of the national flock to ensure consistency of productivity, resulting in added value.

The total project cost of £2,262,000 is being financed by the European Community's European agriculture guidance and guarantee fund, the Welsh Development Agency, the Welsh Institute of Rural Studies and the Meat and Livestock Commission, as well as the Assembly's rural development grant.

Magu trwy Ddidoli

William Graham: Pa drefniadau sydd wedi'u gwneud i ddiogelu trefniadau magu trwy ddidoli er mwyn gwella cig defaid Cymru yn dilyn deddfwriaeth ddiweddar yr Undeb Ewropeidd? (WAQ652VB)

Yr Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (Christine Gwyther): Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar hyn o bryd yn cefnogi'r ail ran o brosiect o'r enw Strategaeth Defaid Cymru, sy'n cael ei reoli gan y Comisiwn Cig a Da Byw drwy grant datblygu cefn gwlod o £250,000.

Lansiwyd rhan dau ar 8 Medi 1997 a'i nod yw ehangu'r datblygiadau yn y dechnoleg o fagu defaid a gyflwynwyd yn rhan un. Bwriedir gwneud hyn drwy raglen i ddatlygu brîd yn uniongyrchol ar y fferm a thrwy sefydlu labordai datblygu ac ymchwil mewn canolfan ragoriaeth yn Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru yn Aberystwyth. Mae'r prosiect yn canolbwytio ar wella ansawdd cig oen Cymreig i sicrhau ei fod yn gystadleul yn y dyfodol, ac yn canolbwytio ar wella cyflwr iechyd y praid cenedlaethol i sicrhau cysondeb y cynnrych a fydd yn arwain at werth ychwanegol.

Cyllidir cost y prosiect cyfan o £2,262,000 gan gronfa cyfarwyddo a gwarantu amaethyddiaeth Ewrop y Gymuned Ewropeidd, Bwrdd Datblygu Cymru, Sefydliad Astudiaethau Gwledig Cymru a'r Comisiwn Cig a Da Byw, ynghyd â grant datblygu cefn gwlod y Cynulliad.

The Welsh Context Company

William Graham: What contacts has Christine Gwyther had with the PR company Welsh Context? (WAQ674VB)

Christine Gwyther: I refer Mr Graham to the answer given by the First Secretary in response to question WAQ667VB.

Cwmni Welsh Context

William Graham: Pa gysylltiadau y mae Christine Gwyther wedi'u cael â'r cwmni cysylltiadau cyhoeddus Welsh Context? (WAQ674VB)

Christine Gwyther: Cyfeiriaf Mr Graham at yr ateb a roddwyd gan y Prif Ysgrifennydd i gwestiwn WAQ667VB.

Sites of Special Scientific Interest

Peter Black: What plans does Christine Gwyther have to improve the protection of sites of special scientific interest in Wales? (WAQ661VB)

Christine Gwyther: I am planning to make an announcement on this shortly.

Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig

Peter Black: Pa gynlluniau sydd gan Christine Gwyther i wella'r trefniadau i amddiffyn safleoedd o ddiddordeb gwyddonol arbennig yng Nghymru? (WAQ661VB)

Christine Gwyther: Yr wyf yn bwriadu gwneud cyhoeddiad ar hyn yn fuan.

Ban on Beef on the Bone

Nick Bourne: Will Christine Gwyther disclose what discussions she has had with the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food relating to the lifting of the ban on beef on the bone? (WAQ732VB)

Christine Gwyther: Officials in health and agriculture departments have frequent discussions with colleagues in the Department of Health, the Ministry of Agriculture, Fisheries and Food and the other UK health and agriculture departments regarding the lifting of the beef on the bone ban and other issues.

Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn

Nick Bourne: A wnaiff Christine Gwyther ddatgelu pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn? (WAQ732VB)

Christine Gwyther: Mae swyddogion mewn adrannau iechyd ac amaethyddiaeth yn cael trafodaethau aml â chydweithwyr yn yr Adran Iechyd, y Weinyddiaeth Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ac adrannau iechyd ac amaethyddiaeth eraill y DU mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

Ban on Beef on the Bone

Nick Bourne: Will Christine Gwyther disclose what representations she received at the Royal Welsh Show in relation to lifting the ban on beef on the bone? (WAQ733VB)

Christine Gwyther: I had a number of discussions at the Royal Welsh Show, relating to all areas of my portfolio.

Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn

Nick Bourne: A wnaiff Christine Gwyther ddatgelu pa sylwadau a dderbyniodd yn y Sioe Frenhinol mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn? (WAQ733VB)

Christine Gwyther: Cefais nifer o drafodaethau yn y Sioe Frenhinol, mewn perthynas â phob rhan o'm portffolio.

Ban on Beef on the Bone

Nick Bourne: Will Christine Gwyther disclose what written representations she has received in relation to lifting the ban on beef on the bone? (WAQ734VB)

Christine Gwyther: I have received a number of written representations, both supporting and opposing the lifting of the ban on beef on the bone.

Gwaharddiad ar Gig Eidion ar yr Asgwrn

Nick Bourne: A wnaiff Christine Gwyther ddatgelu pa sylwadau ysgrifenedig y mae wedi'u derbyn mewn perthynas â chodi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn? (WAQ734VB)

Christine Gwyther: Yr wyf wedi derbyn nifer o sylwadau ysgrifenedig yn cefnogi ac yn gwrthwynebu codi'r gwaharddiad ar gig eidion ar yr asgwrn.

Hunting

Nick Bourne: Will Christine Gwyther make a statement regarding any discussions she has had with the Minister of Agriculture, Fisheries and Food relating to hunting in Wales? (WAQ735VB)

Christine Gwyther: I have had no discussions with the Minister of Agriculture, Fisheries and Food on this subject.

Hela

Nick Bourne: A wnaiff Chrstine Gwyther ddatganiad ar unrhyw drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd yn ymwneud â hela yng Nghymru? (WAQ735VB)

Christine Gwyther: Nid wyf wedi cael unrhyw drafodaethau â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y pwnc hwn.

Hunting

Nick Bourne: Will Christine Gwyther disclose what written representations she has received regarding hunting in her role as Secretary for Agriculture and Rural Development? (WAQ736VB)

Christine Gwyther: I have received one written approach. The Assembly as a whole and, before that, the Welsh Office has received numerous representations on the subject.

Hela

Nick Bourne: A wnaiff Christine Gwyther ddatgeli pa sylwadau ysgrifenedig y mae wedi'u derbyn ynglŷn â hela yn ei rôl fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig? (WAQ736VB)

Christine Gwyther: Yr wyf wedi derbyn un sylw ysgrifenedig. Mae'r Cynulliad fel cyfangorff, a chyn hynny y Swyddfa Gymreig, wedi derbyn sylwadau niferus ar y pwnc hwn.

Hunting

Nick Bourne: What representations did Christine Gwyther receive, in her role as Secretary for Agriculture and Rural Development, at the Royal Welsh Show in 1999 concerning hunting? (WAQ738VB)

Christine Gwyther: This subject was mentioned to me several times during my two days at the Royal Welsh Show. In particular the First Secretary and I met representatives of hunt supporters who were holding a demonstration outside the National Assembly for Wales pavilion.

Hela

Nick Bourne: Pa sylwadau a dderbyniodd Christine Gwyther, yn ei rôl fel Ysgrifennydd Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig, yn Sioe Frenhinol 1999 yn ymwneud â hela? (WAQ738VB)

Christine Gwyther: Cyflwynwyd y pwnc hwn imi nifer o weithiau yn ystod fy neuddydd yn y Sioe Frenhinol. Yn arbennig, cyfarfum i a'r Prif Ysgrifennydd â chynrychiolwyr cefnogwyr hela a oedd yn cynnal protest y tu allan i bafiliwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Loss of Lambs, Beef, Poultry and Game

Nick Bourne: What assessments have been made in Wales concerning the loss of lambs, beef, poultry and game from foxes and mink? (WAQ739VB)

Christine Gwyther: No official figures are kept. There is anecdotal evidence that foxes and mink predate on poultry and game, and occasionally on lambs, but there is nothing to suggest that they present much of a problem to beef cattle.

Colli ŵyn, Gwartheg, Dofednod a Helfilod

Nick Bourne: Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud ynglŷn â niferoedd yr ŵyn, gwartheg, dofednod a helfilod yng Nghymru sy'n cael eu colli i lwynogod a mincod? (WAQ739VB)

Christine Gwyther: Ni chedwir ffigurau swyddogol. Ceir tystiolaeth anecdotaidd fod llwynogod a mincod yn ymosod ar ddfodfednod a helfilod, ac weithiau ar wŷn, ond nid oes unrhyw beth i awgrymu eu bod yn peri problem fawr i wartheg.

Right to Roam

Nick Bourne: Will Christine Gwyther disclose what representations she has received regarding the right to roam in Wales and will she disclose what discussions she has had with the Minister of Agriculture, Fisheries and Food on this matter? (WAQ740VB)

Christine Gwyther: Since 1 July, I have received correspondence from Sue Essex and Ron Davies on this subject. I met Nick Brown at the Royal Welsh Show on 20 July and I plan to have further meetings with him on a range of matters.

Hawl i Grwydro

Nick Bourne: A wnaiff Christine Gwyther ddatgelu pa sylwadau y mae wedi'u derbyn ar yr hawl i grwydro yng Nghymru, ac a fydd hi'n datgelu pa drafodaethau y mae wedi'u cael â'r Gweinidog Amaethyddiaeth, Pysgodfeydd a Bwyd ar y mater hwn? (WAQ740VB)

Christine Gwyther: Ers 1 Gorffennaf, yr wyf wedi derbyn gohebiaeth gan Sue Essex a Ron Davies ar y pwnc hwn. Cyfarfûm â Nick Brown yn y Sioe Frenhinol ar 20 Gorffennaf a bwriedaf gynnal cyfarfodydd pellach ag ef ar ystod o faterion.

Hunting (Jobs)

Nick Bourne: What assessments have been made in Wales relating to the number of direct and indirect jobs dependent upon hunting, will Christine Gwyther disclose the details of such assessments? (WAQ741VB)

Christine Gwyther: No such assessments have been made in Wales, but an independent survey produced in 1997 by Cobham Resource Consultants estimated that, in Great Britain as a whole, hunting with dogs provided direct employment for around 8,600 people while another 6,600 were indirectly dependent on hunting.

Hela (Swyddi)

Nick Bourne: Pa asesiadau sydd wedi'u gwneud o ran nifer y swyddi uniongyrchol ac anuniongyrchol sy'n dibynnu ar hela, ac a fydd Christine Gwyther yn datgelu manylion asesiadau o'r fath? (WAQ741VB)

Christine Gwyther: Nid oes asesiadau o'r fath wedi'u gwneud yng Nghymru, ond yr oedd arlowg annibynnol a gynhyrchwyd ym 1997 gan Ymgynghorwyr Adnoddau Cobham yn amcangyfrif, ym Mhrydain Fawr gyfan, fod hela â chŵn yn cynnig cyflogaeth uniongyrchol i tua 8,600 o bobl tra bod 6,600 arall yn ddibynnol ar hela yn anumiongyrchol.

Tariff Quota (Imported Egyptian Potatoes)

Nick Bourne: What plans does Christine Gwyther have to look into the increase in the tariff quota and the reduction in the tariff weight for Egyptian imports of potatoes and the effect that this will have on the UK potato market, on behalf of Welsh agriculture? (WAQ658VB)

Christine Gwyther: I am aware of the current problems facing the home potato market but, as with any trade agreement, the overall benefits of the package must be considered. The agreement reached in June on an agricultural package between the European Union and Egypt includes a tariff free quota for Egyptian potatoes of 130,000 tonnes in the first year of the agreement, 190,000 tonnes in the second year and 250,000 tonnes in the third and subsequent years. The agreement is unlikely to come into force for one or two years owing to the time taken for ratification.

The agreement includes new opportunities for exporters of agricultural products throughout the EU. I hope those in Wales will take full advantage of the significantly increased value of the import concessions made by the Egyptians in the final stages of negotiation.

The decision to accept the terms of the agreement was made on this basis and we will be drawing these opportunities to the attention of producers in Wales via the Welsh Development Agency and our own officials.

Cwota'r Tariff (Mewnforion Tatws o'r Aifft)

Nick Bourne: Beth yw cynlluniau Christine Gwyther ar gyfer ymchwilio i'r cynnydd yng nghwota'r tariff a'r gostyngiad yn y pwysau tariff ar fewnforion tatws o'r Aifft ac effaith hyn ar farchnad datws y Deyrnas Unedig, ar ran amaethyddiaeth Cymru? (WAQ658VB)

Christine Gwyther: Yr wyf yn ymwybodol o'r problemau sy'n wynebu'r farchnad datws gartref ar hyn o bryd ond, fel yn achos unrhyw gytundeb masnach, rhaid ystyried manteision y pecyn drwyddo draw. Yr oedd y cytundeb a gafwyd ym mis Mehefin ynghylch pecyn amaethyddol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'r Aifft yn cynnwys cwota di-dariff ar gyfer tatws o'r Aifft, sef 130,000 tunnell ym mlwyddyn gyntaf y cytundeb, 190,000 tunnell yn yr ail flwyddyn a 250,000 tunnell yn y drydedd flwyddyn a'r blynnyddoedd dilynol. Nid yw'r cytundeb yn debygol o ddod i rym am flwyddyn neu ddwy oherwydd yr amser a gymer i'w gadarnhau..

Mae'r cytundeb yn cynnig cyfleoedd newydd i allforwyr cynhyrchion amaethyddol drwy'r UE. Gobeithiaf y bydd cynhyrchwyr yng Nghymru yn manteisio'n llawn ar y cynnydd sylweddol yng ngwerth y consesiynau mewnforio a wnaed gan yr Eifftwyr yn ystod camau olaf y trafodaethau.

Ar y sail hon y gwnaethpwyd y penderfyniad i dderbyn telerau'r cytundeb a byddwn yn tynnu sylw cynhyrchwyr yng Nghymru at y cyfleoedd hyn drwy gyfrwng Awdurdod Datblygu Cymru a'n swyddogion ein hunain.

Cwestiynau i'r Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 Questions to the Secretary for Post-16 Education and Training

Provisions and Funding for People with Disabilities

Peter Black: What provisions and funding are available in training organisations in Wales to accommodate people with disabilities and to assist them to find employment? (WAQ699JS)

The Secretary for Post-16 Education and Training (Tom Middlehurst): Training and enterprise councils are required, as part of their contract with the Assembly to set out and implement an equal opportunities strategy that meets the TEC equal opportunity national standard. TECs must also ensure that its providers and contractors agree to promote equal opportunity for all activities funded by the Assembly and comply with all statutory duties, including the Disability Discrimination Act 1995.

Adults with disabilities have immediate access to the work-based learning programme and, under the training for young people programmes, TECs are required to provide young people who have a special training need with relevant extra help to enable them to complete their training. Discretionary funds have also been used by TECs to provide locally-tailored support for people with disabilities.

In addition, the Assembly supports the Government's policies to tackle the barriers which people with disabilities face in seeking work and remaining in employment. Those policies, which are the responsibility of the Employment Service include: the New Deal for disabled people personal adviser service, which is being piloted in the eastern valleys of south Wales, Disability Service Teams and a range of specialist programmes including: employment assessment; work preparation; job introduction scheme; access to work and supported employment.

Darpariaeth a Chyllid i Bobl ag Anableddau

Peter Black: Pa ddarpariaethau a chyllid sydd ar gael i gyrrff hyfforddi yng Nghymru i ddelio â phobl ag anableddau ac i'w cynorthwyo i ddod o hyd i waith? (WAQ699JS)

Yr Ysgrifennydd Addysg a Hyfforddiant Ôl-16 (Tom Middlehurst): Fel rhan o'u cytundeb â'r Cynulliad, mae gofyn i gynghorau hyfforddi a menter yng Nghymru drefnu a gweithredu strategaeth cyfle cyfartal sy'n cyrraedd safon genedlaethol cyfartal y cynghorau hyfforddi a menter. Rhaid i'r CHM sicrhau bod eu holl gyflenwyr a chontractwyr yn cytuno i hyrwyddo cyfle cyfartal yn yr holl weithgareddau a gyllidir gan y Cynulliad, ac yn cydymffurfio â'r dyletswyddau statudol, gan gynnwys y Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.

Mae gan oedolion ag anabledd fynediad uniongyrchol i'r raglen ddysgu sy'n seiliedig ar waith, ac fel rhan o'r rhagleni hyfforddiant i bobl ifainc, rhaid i'r CHM ddarparu'r cymorth ychwanegol perthnasol i bobl ifainc ag anghenion hyfforddi arbennig er mwyn iddynt gwblhau eu hyfforddiant. Defnyddiwyd cronfeydd dewisol gan y CHM i ddarparu cefnogaeth leol i bobl ag anableddau.

At hyn, mae'r Cynulliad yn cefnogi polisiau'r Llywodraeth i ddelio â'r rhwystrau a wynebir gan bobl anabl wrth iddynt chwilio am waith ac aros yn gyflogedig. Mae'r polisiau hyn, sydd yn gyfrifoldeb y Gwasnaeth Cyflogi, yn cynnwys: gwasanaeth cyngorwr personol y Fargan Newydd i bobl anabl, sydd yn gynllun arbrofol yng nghymoedd dwyreiniol de Cymru, timau gwasanaethu'r anabl a nifer o gynlluniau arbenigol sydd yn cynnwys: asesiad cyflogaeth, paratoi at waith, cynllun cyflwyno gwaith, mynediad i waith a chyflogaeth â chefnogaeth.

Access and Support for People with Disabilities

Peter Black: What are Tom Middlehurst's plans to review access and support arrangements in further and higher education for people with disabilities in Wales? (WAQ700JS)

Tom Middlehurst: We are fully committed to widening access to further and higher education to all those with the ability to benefit from it. The lifelong learning Green Paper for Wales, 'Learning is for Everyone', published in April 1998, recognised that those with learning difficulties face particular barriers to learning. We are committed to removing such barriers wherever possible.

The remit letters issued to the Welsh funding councils in January 1999 require the councils to consider the implications of their funding arrangements for equal opportunities, to continue to recognise the needs of students with disabilities and to fund institutions to provide support for students with learning difficulties and disabilities.

The Disability Discrimination Act 1995 requires all educational establishments to provide better information about their facilities for disabled students. Since 1996, all Welsh further and higher education institutions must publish disability statements giving details of their facilities for people with disabilities. To monitor provision, the Welsh funding councils examine these disability statements annually and subject them to full review every three years.

For students with disabilities in higher education, the Government provides a disabled student's allowance, which helps meet any extra costs or expenses that the student may have to pay in attending their course as a result of their disability. For further education students, local education authorities can make discretionary grants towards course and support costs.

Mynediad a Threfniadau Cefnogi i Bobl ag Anableddau

Peter Black: Pa gynnlluniau sydd gan Tom Middlehurst i adolygu mynediad a threfniadau cefnogi mewn addysg bellach ac uwch i bobl ag anableddau yng Nghymru? (WAQ700JS)

Tom Middlehurst: Yr ydym yn gwbl ymrwymedig i ehangu mynediad i addysg bellach ac uwch i'r rheini â'r gallu i elwa oddi wrth hynny. Mae'r Papur Gwyddonol i Gymru ar addysg drwy gydol oes, 'Mae Addysg i Bawb', a gyhoeddwyd yn Ebrill 1998 yn cydnabod fod pobl ag anawsterau dysgu yn wynebu rhwystrau arbennig i ddysgu. Yr ydym wedi ymrwymo i waredu'r rhwystrau hynny ble bynnag y bo modd.

Mae'r llythyrau a anfonwyd yn 1999 i gynghorau cyllido Cymru sy'n disgrifio'u cylch gwaith yn gofyn i'r Cyngorau ystyried goblygiadau eu trefniadau cyllido cyfleoedd cyfartal, parhau i gydnabod anghenion myfyrwyr ag anableddau a chyllido sefydliadau i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr ag anawsterau dysgu ac anableddau.

Mae'r Ddeddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995 yn gofyn i bob sefydliad addysg ddarparu gwell gwybodaeth am ei gyfleusterau i fyfyrwyr anabl. Ers 1996, rhaid i'r holl sefydliadau addysg bellach ac uwch yng Nghymru gyhoeddi datganiadau anabledd yn rhoi manylion am eu cyfleusterau i bobl ag anableddau. Er mwyn arolygu'r ddarpariaeth, mae cynghorau cyllido Cymru yn astudio'r datganiadau anabledd hyn yn flynyddol ac yn eu hadolygu'n llawn bob tair blynedd.

